# Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a Phrif Gwnstabl Heddlu Gogledd Cymru

# Cynllun Ariannol Tymor Canolig

# 2024-25 i 2028-29

**Ionawr 2024**

## 1. Cyflwyniad

1.1 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) yn ddogfen allweddol sy'n cysylltu Cynllun Heddlu a Throsedd 2021 (northwales-pcc.gov.uk) Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd (CHTh), a gafodd ei baratoi ar ôl i'r CHTh newydd gael ei ethol, a'r Blaenoriaethau Plismona a gytunwyd gan y CHTh a'r Prif Gwnstabl; gyda'r Strategaeth Ariannol (Atodiad A) a'r adnoddau sydd ar gael.

1.2 Caiff ei adolygu a'i ddiweddaru bob blwyddyn ac mae'r CATC a gynhyrchwyd flwyddyn yn ôl ym mis Ionawr 2023 yn dangos cyllideb fantoledig ar gyfer 2023-24 a 2024-25, yn seiliedig ar gyfres resymol o dybiaethau a wnaed ar y pryd. Ers hynny, mae nifer o broblemau byd-eang a chenedlaethol wedi cael effaith ar ddigwyddiadau sy'n golygu fod yr iteriad presennol wedi newid mewn sawl ffordd.

1.3 Fel bob blwyddyn arall, mae'r sefydliad bellach wedi cwblhau ei phroses gynllunio flynyddol, sydd wedi arwain at gynhyrchu cynlluniau ariannol manwl ar gyfer BA2024-25 a chynigion tymor canolig pellach sy'n ffurfio'r sylfaen ar gyfer y CATC hwn. Mae'r gwaith hwn yn cynnwys nifer o elfennau allweddol a gaiff eu hegluro'n gryno isod.

1.4 2023-24 oedd y flwyddyn gyntaf o weithredu Rhaglen 'Uplift' y Llywodraeth mewn perthynas â Swyddogion yr Heddlu yn llawn, a llwyddwyd i gyflawni'r targed ym mis Mawrth 2023. Ers cyflawni'r targed hwn, mae cynnal nifer y swyddogion ar y lefel darged, sef 1,696 o Swyddogion, wedi bod yn ystyriaeth allweddol (gyda goblygiadau gweithredol ac ariannol) ac mae'r cyfraddau gadael, er eu bod yn parhau i fod yn gymharol isel o'i gymharu â heddluoedd eraill, wedi bod yn uwch na lefelau hanesyddol yr Heddlu. Llwyddwyd i gadw cyfraddau recriwtio Swyddogion ar yr un lefel, sef 132 y flwyddyn (o'i gymharu â lefel o 72 y flwyddyn cyn yr ymgyrch 'Uplift') a rhagwelir y bydd hyn yn aros yr un fath yn y tymor canolig. Er bod camau gweithredol yn cael eu cymryd i reoli'r cyfraddau gadael, y goblygiad tymor byr yw ei fod yn cyfyngu'r posibilrwydd o gynyddu nifer y swyddogion.

1.5 O ystyried y cyfyngiad ar niferoedd Swyddogion, un o ffocws allweddol ar gyfer y cylch cynllunio oedd sicrhau fod y Swyddogion sydd ar gael i'r heddlu'n cael eu defnyddio yn y modd mwyaf cynhyrchiol, gan flaenoriaethu eu dyraniad i'r meysydd mwyaf dylanwadol. Roedd y Prif Gwnstabl eisoes wedi dechrau Adolygiad Optimeiddio ar draws yr heddlu, gyda'r nod o gynyddu nifer y Swyddogion sydd ar gael drwy waredu rhwystrau a'u dyrannu i feysydd allweddol. Roedd yr adolygiad yn cyd-fynd â'r Broses Gynllunio Sefydliadol sydd wedi galluogi dyrannu swyddogion ar sail blaenoriaethau a gofynion eraill i sicrhau fod anghenion cefnogaeth a gofynion newidiol swyddogion (megis costau sefydlu, hyfforddi a recriwtio) yn cael eu bodloni. Bydd y broses o hyfforddi swyddogion newydd a gaiff eu recriwtio'n parhau yn y flwyddyn ariannol newydd.

1.6 Mae chwyddiant uchel wedi bod yn nodwedd arall o'r cam cynllunio. Cytunwyd ar wobrau tâl o 7% ym mis Medi 2023 ac fe'u cyflwynwyd i Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu, ac mae chwyddiant nad oedd yn ymwneud â thâl hefyd wedi bwydo i mewn i 2024-25. Er y cafodd y gwobrau tâl eu hariannu'n rhannol, bu'n rhaid i'r heddlu

ddatblygu cynlluniau mewn modd hyblyg i sicrhau bod modd cyflawni cyllideb fantoledig. Mae cyfraddau chwyddiant uwch hefyd wedi arwain at gynnydd mewn cyfraddau llog, ac mae'r Heddlu wedi ystyried unrhyw incwm buddsoddi ychwanegol a allai fod yn berthnasol wrth sefydlu ei gynlluniau.

1.7 Er bod cyllid bob amser yn ystyriaeth hanfodol yn y cylch cynllunio, mae wedi bod yn nodwedd amlwg iawn yng nghamau diweddarach y broses gynllunio, gyda'r angen i weithio drwy ostyngiadau mewn grantiau penodol sy'n ymofyn ffocws diamwys ar feysydd eraill, megis y cynnydd yng Nghyfraniadau Pensiwn Cyflogwyr i swyddogion a'r cyllid cysylltiedig. Mae ansicrwydd yn parhau, yn rhannol o ganlyniad i'r cyd-destun gwleidyddol, - lluniwyd y CATC gan ddefnyddio'r wybodaeth orau sydd ar gael gan wneud tybiaethau rhesymol lle bo hynny'n briodol.

1.8 Mae pwyslais ar werth am arian a chynhyrchiant hefyd wedi bod yn faes ffocws arbennig. Roedd yr Adolygiad Optimeiddio'n canolbwyntio'n arbennig ar Gynhyrchiant drwy wneud y defnydd gorau o adnoddau ac mae arbedion Effeithlonrwydd yr Heddlu hefyd wedi bod yn nodwedd hanfodol er mwyn cyflawni cyllideb fantoledig. Cyflawnwyd gwaith helaeth fel rhan o'r Broses Gynllunio Sefydliadol er mwyn nodi arbedion ac ail-ddyrannu adnoddau o fewn y sefydliad. Byddai angen cynnydd treth cyngor o 13.22% i dalu costau chwyddiant, galw dadleoledig yn sgil y gostyngiad mewn grantiau penodol ac unrhyw dwf strwythurol anochel arall sy'n sylweddol uwch na'r amcanestyniad gwreiddiol o 4.5% ac felly mae camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â'r bwlch hwn. Yn ystod y broses gynllunio, ystyriwyd arbedion lefel gwasanaeth a lefel gorfforaethol, y defnydd o fantolen gref i ariannu unrhyw gynnydd dros dro mewn costau, herio ceisiadau twf mewn modd cadarn a chymeradwyo twf ar gyfer yr eitemau ychwanegol hynny sydd eu hangen i fodloni gofynion galw anochel yn unig. Rhoddwyd sylw dyledus hefyd i sefyllfa'r Heddlu mewn perthynas ag adnoddau meincnodi ehangach eraill yn seiliedig ar arolygiadau PEEL HMICFRS, asesiadau Gwerth am Arian HMICFRS; dadansoddiad Data a Dadansoddi AFEP III CIPFA (gan gynnwys ei Fynegai Cadernid Ariannol) a dadansoddiadau meincnodi eraill i helpu i nodi lle gellid gwneud y defnydd gorau o adnoddau'r Heddlu a gosod cyllideb ar lefel briodol.

1.9 Bu'n rhaid i'r Comisiynydd ystyried bob un o'r agweddau hyn a'r opsiynau cysylltiedig wrth bennu'r adnoddau sydd ar gael a gwneud y defnydd gorau ohonynt.

1.10 Gan ystyried yr holl ffactorau hyn, cynigir cynnydd o £16.56 (4.97%) yn nhreth y cyngor ar gyfer 2024-25. Cynnydd tybiedig y Swyddfa Gartref ar gyfer 2024-25 yw £13, fodd bynnag, yn sgil gostyngiad mewn grantiau penodol, mae angen swm uwch i gefnogi swyddogion rheng flaen a Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a bodloni'r gofyniad i osod cyllideb gytbwys a chynaliadwy. Mae hwn yn gynnydd darbodus i dreth y cyngor/y praesept, o ystyried bod angen ariannu pwysau yn y dyfodol ar ffurf dyfarniadau cyflog a chynyddrannau yn ogystal â phwysau ar gostau ar wahân i staff oherwydd chwyddiant ar hyn o bryd. Yn seiliedig ar y tybiaethau a amlinellir yn y CATC, gan gynnwys cynnydd treth y cyngor o £13/3.7%, mae bwlch o £1.272m (0.6% yn y Gyllideb Net) ar gyfer 2025-26, a disgwylir i'r bwlch hwn gynyddu i £7.591m erbyn 2028-29 oni bai bod arbedion yn cael eu nodi bob blwyddyn. Mae hyn yn cynnwys

cyllid ychwanegol gofynnol yn 2026-27 ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o £1.1 miliwn. Fodd bynnag, mae yna lawer o ansicrwydd a risgiau ar ddechrau 2024-25 ac mae unrhyw dybiaeth sy'n ymddangos yn rhesymol nawr yn gallu newid, fel y gwelwyd dros y 12 mis diwethaf.

**2. Nod**


2.1 Nod y papur hwn yw manylu sut y cafodd y gyllideb ei mantoli hyd yma a'r cynlluniau i gynnal cyllideb gytbwys, sefydlog a chynaliadwy yn y tymor canolig a hwy, gan gynnal a gwella perfformiad a sicrhau bod blaenoriaethau lleol a chenedlaethol yn cael eu cyflawni.

**3. Cefndir**

3.1 Ers 2010-11 (sy'n cael ei ystyried yn sylfaen cyn caledi), cafwyd cyfnod hir o galedi. Cafwyd cyfnod hir o dwf wedi'i dargedu o Swyddogion yr Heddlu yn dilyn hynny rhwng 2021-22 a 2023-24 (ariannwyd yr 20,000 o Swyddogion ychwanegol drwy'r "Ymgyrch Uplift"). Cyn y twf hwn, roedd cyllid gan y Llywodraeth wedi gostwng -25% mewn termau real (gan ystyried chwyddiant) erbyn 2021-22. Bwriadwyd i'r cyllid ychwanegol a ddarparwyd yn dilyn hynny fod yn sail ôl-dlodi, ôl gynnydd newydd, ond mae'r sefyllfa wedi'i chymhlethu gan y cyfraddau chwyddiant uchel a'r angen i barhau i recriwtio a chynnal niferoedd swyddogion ar lefel uwch.

3.2 Yn ystod y cyfnod hwn, mae'r galw yn y maes Plismona wedi newid a chydnabyddir yn gyffredinol bod cymhlethdod a galw gan asiantaethau partner (sy'n wynebu eu heriau ariannol eu hunain) yn cynyddu.

3.3 Mae effaith gyffredinol llai o gyllid a phwysau chwyddiant a phwysau arall wedi arwain at wneud £45 miliwn o arbedion i'r cyllidebau dros gyfnod o 14 mlynedd. Mae gan Heddlu Gogledd Cymru hanes ardderchog o gyflawni arbedion sydd wedi'u cynllunio, gyda strategaeth o graffu'n llawn ar arbedion sydd wedi'u cynllunio cyn blwyddyn eu cyflawni. Hyd yn oed yn ystod yr ymgyrch 'Uplift' (y bariau glas tywyll yn yr atodlen isod), mae'r Heddlu wedi parhau i ymdrechu i sicrhau arbedion er mwyn iddo fedru lleihau'r effaith ar y trethdalwr lleol a buddsoddi mewn meysydd sy'n cynnal ei effeithlonrwydd i'r dyfodol. Gweler yr arbedion cronnus yn y graff isod:




3.4 Cyn cyhoeddi setliad 2020-21, roedd gan y Llywodraeth bolisi yn ei le i gynyddu niferoedd Swyddogion yr Heddlu o 20,000 (Ymgyrch Uplift) dros gyfnod o 3 blynedd. Roedd cyhoeddiadau 2020-21 a 2021-22 yn dyrannu 12,000 o'r swyddogion ychwanegol hyn ymysg Heddluoedd, a dyrannwyd 124 i Heddlu Gogledd Cymru. Roedd y cyhoeddiad cyllid ar gyfer 2022-23 yn rhannu'r 8,000 o swyddogion ychwanegol oedd yn weddill, ac fe gafodd Heddlu Gogledd Cymru 82 arall, oedd yn gyfanswm o 206 (gan gynnwys 8 a ddyrannwyd i Uned Ranbarthol Troseddau Difrifol a Chyfundrefnol). Yn ogystal â'r rhain, ariannwyd deg ar hugain o swyddogion eraill gan y praesept yn 2020-21, gan olygu y bu cynnydd o 236 dros dair blynedd. Cafodd y swyddogion hyn eu recriwtio'n llawn erbyn mis Mawrth 2023, ond bu hyn yn fwy heriol na'r disgwyl oherwydd bod nifer uwch o swyddogion yn gadael y gwasanaeth. Mae cynlluniau recriwtio wedi eu gosod ar gyfer 2024-25 i sicrhau y gellir cynnal y sylfaen newydd o 1,696 o swyddogion, gan gymryd i ystyriaeth y niferoedd gadael uwch ar hyn o bryd.

3.5 Mae cynnydd mewn cyllid ers 2020/21 wedi canolbwyntio ar Ymgyrch Uplift. Mae grant ychwanegol wedi'i dderbyn er mwyn cynyddu niferoedd swyddogion; ond mae'r grant sylfaen wedi parhau ar yr un lefel yn nhermau arian parod (gostyngiad mewn termau real) sy'n arwain at bwysau cyllidebol mewn meysydd eraill, gan gynnwys costau ychwanegol cynnal nifer uwch o swyddogion. Mae'r dyraniad terfynol o niferoedd a chyllid wedi dylanwadu ar y cynllun at y dyfodol o ran faint o'r gyllideb sydd angen ei neilltuo i ariannu costau cyflogau swyddogion yn y dyfodol, a faint sy'n gallu cael ei neilltuo ar gyfer costau. Cytunwyd ar wobr tâl o 7% ar gyfer Swyddogion a Staff o fis Medi 2023, a dyrannodd y Llywodraeth gyllid ychwanegol tuag at y costau cynyddol i'w gwrthbwyso'n rhannol. Disgwyliwyd i gyfradd cyfraniadau at Bensiwn Cyflogwr Swyddogion yr Heddlu gynyddu hefyd o fis Ebrill 2023, gyda'r Swyddfa Gartref yn awgrymu'n gryf y byddai costau ychwanegol y cynnydd hefyd yn cael ei ariannu.

3.6 Roedd gan CATC Ionawr 2023 gyllideb gytbwys ar gyfer 2023-24 a 2024-25, fodd bynnag, ers hynny mae nifer o ffactorau Geowleidyddol wedi effeithio ar yr amgylchedd economaidd yn gyffredinol, gan gynnwys:

- Y rhyfel parhaus yn Wcráin
- Y gwrthdaro yn Israel a Phalesteina
- Marchnadoedd Olew / Ynni Cyfnewidiol
- Argyfwng Hinsawdd Byd-eang
- Gweithredu Brexit
- Problemau Cyflenwi Byd-eang
- Cyfraddau chwyddiant uchel yn arwain at gyfraddau llog uchel
- Dyfarniadau tâl uwch na'r hyn oedd yn y gyllideb
- Ansicrwydd gwleidyddol a newid ar lefel genedlaethol, ranbarthol a lleol yn achosi ansicrwydd ariannol

Digwyddodd y digwyddiadau hyn wrth i'r DU ddod allan o'r pandemig Covid. Roedd y pandemig wedi arwain at nifer o heriau ond hefyd cyfleoedd wrth i arferion gwaith newid a gosod y seilwaith i gefnogi hyn. Roedd y cyd-destun hwn yn gwneud y sail ar gyfer cynllunio ariannol at 2024-25 ymlaen yn ansicr iawn. Roedd y pwysau chwyddiannol mwyaf a deimlwyd o ganlyniad i wobrau tâl o 7%, sy'n sylweddol uwch na'r 2.5% y cyllidebwyd ar ei gyfer. Gan fod costau swyddogion a staff yn cyfrif am oddeutu 80% o gyfanswm costau, mae hyn yn creu cynnydd sylweddol mewn gwariant fel cyfran o'r gyllideb gyffredinol. Mae rhagdybiaethau darbodus wedi eu gwneud ar gyfer y dyfodol yn seiliedig ar wybodaeth sydd ar gael adeg paratoi'r CATC hwn, ond mae ansicrwydd yn parhau'n uchel.

## 4. Y Broses Gynllunio

4.1 Diben pennaf y drefn gynllunio yw blaenoriaethu adnoddau a chysoni'r cynlluniau gwario â blaenoriaethau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a gweledigaeth y Prif Gwnstabl fel y'u nodir yn y Strategaeth Ariannol (Atodiad A)

4.2 Etholwyd Andy Dunbobbin, Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mis Mai 2021. Fe adolygodd y Comisiynydd y Cynllun Heddlu a Throsedd a gosododd y blaenoriaethau sy'n cael eu crynhoi isod. Mae'r cynllun llawn ar gael ar wefan y Comisiynydd Cynllun Heddlu a Throsedd 2021 (northwales-pcc.gov.uk).

**Beth yw'r Cynllun Heddlu a Throsedd?**

Mae'r Cynllun Heddlu a Throsedd yn canolbwyntio ar y prif feysydd y disgwylir i'r heddlu eu darparu - materion o bwys i bobl leol, ynghyd â gofynion plismona cenedlaethol eraill.

# SHAPING THE PLAN

## MY PLAN

My plan sets out my vision for North Wales and how I expect the vision to be achieved. It is informed by public consultation and

## MY VISION

North Wales communities are safe, victims and vulnerable people feel supported, crime and reoffending are low, and people have confidence in policing and the criminal justice system

## MY PRIORITIES

### DELIVERING SAFER NEIGHBOURHOODS

- Tackle and prevent rural and wildlife crime
- Improve the efficiency and effectiveness of police officers and police staff
- Improve Road safety

### SUPPORTING VICTIMS AND COMMUNITIES

- Tackle and prevent domestic abuse and sexual violence
- Safeguard vulnerable people including children
- Tackle and prevent cybercrime
- Establish a victims panel
- Tackle and prevent Hate Crime

### FAIR AND EFFECTIVE CRIMINAL JUSTICE SYSTEM

- Introduce a North Wales Female Offender Strategy
- Increase the use of Restorative Justice
- Support and protect children and young people and divert them away from the Criminal Justice System
- Address the root causes of offending and support the rehabilitation of people who have offended

3

**Prif Flaenoriaethau Cenedlaethol ar gyfer Plismona**

Rhoddir eglurhad am gyfraniad yr Heddlu a pherfformiad i gyflawni gwelliannau yn erbyn prif flaenoriaethau cenedlaethol plismona.

**Y blaenoriaethau plismona cenedlaethol yw:**

- Lleihau llofruddiaethau a dynladdiad eraill
- Lleihau troseddau difrifol
- Amharu ar gyflenwadau cyffuriau a llinellau sirol

- Gostwng troseddau cymdogaeth
- Mynd i'r afael â throsedd seiber
- Gwella boddhad ymysg dioddefwyr gyda chanolbwynt penodol ar ddioddefwyr cam-drin domestig

4.3 Yn ogystal â Chynllun yr Heddlu a Throsedd, bydd yr Heddlu hefyd yn amlinellu ei weledigaeth ehangach ac yn cynllunio i ategu ato. Cafodd Prif Gwnstabl Gogledd Cymru, Amanda Blakeman ei phenodi ar 1 Tachwedd 2022, ac adolygodd strategaeth yr Heddlu a'i ymgorffori i Gynllun Strategol Heddlu Gogledd Cymru 2023-2016. Amlinellir gweledigaeth yr Heddlu a nodwyd yn ei gynllun ar y dudalen isod:





4.4 Er mwyn sicrhau fod adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd orau bosibl i ddarparu gweledigaeth a blaenoriaethau'r Heddlu, comisiynodd y Prif Gwnstabl Blakeman y Rhaglen Optimeiddio a dechreuwyd ar y gwaith ym mis Ionawr 2023, gan ystyried meysydd gweithredol penodol a'r ffordd orau i ddefnyddio'r adnoddau sydd ar gael. Roedd y rhain yn cynnwys adolygiadau penodol o blismona ymateb, dalfa, paratoi

ffeiliau gan edrych ar y broses a lefel yr adnoddau yn yr ardaloedd hynny. Cafodd y Rhaglen ei hintegreiddio'n llawn yn y broses gynllunio gan arwain at graffu'n fanwl ar y defnydd o'i adnodd fwyaf, Swyddogion yr Heddlu.

4.5 Adolygwyd y broses gynllunio ar gyfer 2024-25 gan yr Uned Cynllunio Strategol, Adran Gyllid, uwch-arweinwyr a'r prif swyddogion. Gofynnwyd i bob Gwasanaeth a maes Gweithredol adolygu'r adnoddau sydd ar gael, ystyried yr Adolygiad Optimeiddio, nodi arbedion ac unrhyw fylchau mewn adnoddau a nodwyd yn Natganiad Rheoli'r Heddlu. Comisiynwyd Adolygiadau Thematig hefyd yn ôl yr angen i ystyried meysydd penodol ymhellach.




4.6 Rhoddwyd trefniadau llywodraethu penodol ar waith ar gyfer y broses gynllunio dan arweiniad Prif Uwch-Arolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol. Fel y disgrifir isod, dechreuodd y broses ym mis Gorffennaf 2023 gyda Chynlluniau Busnes yn cael eu paratoi dros yr haf, ac yn dilyn hynny, cynhaliwyd adolygiad cymheiriaid o gyflwyniadau cyn cyflwyno cynlluniau i'r Prif Swyddogion, ac yna i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Fe arweiniodd y dull corfforaethol a gwaith craffu cynnar gan gydweithwyr at gynllun â chefnogaeth lawn a fydd yn cael ei weithredu dros y 12 i 18 mis nesaf. Yn ogystal â hyn, wrth i ddigwyddiadau ddatblygu, gwnaed gwaith ychwanegol gan yr Uned Cynllunio Strategol a'r Tîm Cyllid Corfforaethol i archwilio'r pwysau costau ychwanegol ac ystyried cyfleoedd i ddefnyddio'r fantolen gref ac ail-bwrpasu cyllidebau refeniw.




4.7 Daeth nifer o broblemau i'r amlwg yn ystod y broses gynllunio a oedd y tu hwnt i reolaeth yr Heddlu, ond roedd angen eu hystyried fel rhan o'r cynlluniau. Y prif rai oedd:

- Gosod y gwobrau tâl ar 7% o fis Medi 2023 (a chyllid rhannol cysylltiedig)
- Cynnydd yn y cyfraniadau at bensiwn cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu (a chyllid cysylltiedig)
- Cyfyngiad ar nifer y Swyddogion Heddlu yn sgil cynyddiadau mewn diswyddiadau ac athreuliad.
- Galw dadleoledig gan asiantaethau partner, y trydydd sector a sectorau eraill.
- Gostyngiad posibl yng nghyllid Llywodraeth Cymru a phartneriaid eraill (e.e. Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu)
- Gostyngiad posibl yng nghyllid Swyddogion Cyswllt Ysgolion

4.8 Er mwyn helpu i reoli'r digwyddiadau uchod, gosododd y broses gynllunio hon dargedau arbedion o £0.920 miliwn ar gyfer meysydd Gwasanaeth a £0.760 miliwn ar gyfer meysydd Gweithredol o 1% gyda tharged ymestyn o 2% o arbedion. Roedd y rhain yn ddangosol, ac ystyriwyd arbedion ychwanegol lle bo modd ynghyd ag unrhyw risgiau sydd ynghlwm â gwneud arbediad arbennig.

4.9 Fel rhan o'r uchod, aethpwyd drwy'r broses arferol i ddatblygu gofynion cyllidebol y dyfodol ac mae'r manylion i'w gweld yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) hwn. Wrth i reolwyr ddatblygu'r cyflwyniadau a'r CATC hwn, rhoddwyd ystyriaeth i'r canlynol:

- Blaenoriaethau Lleol a Chenedlaethol fel y'u nodwyd yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Gweledigaeth yr Heddlu
- Pwysau ac arbedion newydd ac sy'n dod i'r amlwg
- Y drefn gynllunio strategol
- Datganiad Rheoli'r Heddlu
- Strategaethau eraill yr Heddlu

- Yr hinsawdd economaidd sydd ohoni
- Amcangyfrif o'r adnoddau sydd ar gael i ariannu'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig
- Rhagolygon cyllidebol y cyfnod, gan gynnwys dyfarniadau cyflog
- Y sefyllfa ariannol bresennol gan gynnwys unrhyw danwariant posibl yn erbyn y gyllideb
- Y Strategaeth Gyfalaf a'r Rhaglen Gyfalaf, y Cod Darbodus a'u heffaith ar y Gyllideb Refeniw
- Cronfeydd wrth gefn a Balansau
- Creu incwm, gweithgareddau masnachu a grantiau
- Mentrau cydweithio lleol, rhanbarthol a chenedlaethol
- Effeithlonrwydd o fuddsoddiadau
- Canfyddiadau ac argymhellion yr Adolygiad Optimeiddio
- Dulliau meincnodi Gwerth am Arian gan gynnwys Arolygiadau PEEL HMICFRS; asesiadau Gwerth am Arian HMICFRS a dadansoddiad Data a Dadansoddi AFEP III CIPFA (gan gynnwys ei Fynegai Cadernid Ariannol)
- Parodrwydd yr Heddlu i Dderbyn Risg Ariannol a'r tuedd hanesyddol o danwariant a welwyd yn y blynyddoedd ariannol diwethaf.

4.10 Cyhoeddir Datganiad Rheoli'r Heddlu'n flynyddol. Mae'r Datganiad yn dadansoddi galw yn y dyfodol yn erbyn capasiti a gallu ein timau. Mae'n defnyddio prosesau dadansoddi data a chyfweliadau gydag arbenigwyr pwnc ac asesiadau risg MORILE Mae'r Datganiadau blaenorol wedi llywio'r broses gynllunio, a bydd y broses gynllunio, yn ei dro, yn llywio'r Datganiad nesaf.

4.11 Roedd y broses i lunio'r Datganiad yn cynnwys ceisio pennu'r rhagolygon am alw yn y dyfodol, ystyried beth sydd ar y gorwel, a chasglu barn arbenigwyr gweithredol. Roedd y broses hefyd yn sgorio pob maes yn seiliedig ar

- Y galw presennol
- Dealltwriaeth o alw yn y dyfodol
- Rhagdybiaeth o alw yn y dyfodol
- Capasiti cyfredol: Asedau
- Diogelwch cyflenwad
- Gallu: Pobl
- Gallu: Offer
- Iechyd a lles swyddogion a staff
- Cyflwr: Offer
- Perfformiad Presennol
- Asedau: Galw ar gyfer y dyfodol
- Bwlch galw gweddilliol
- Risg o niwed i'r cyhoedd
- Risg o niwed i'r sefydliad

Bydd y meysydd hyn a nodwyd sydd fwyaf angen buddsoddiad, gydag argaeledd buddsoddiad cyfyngedig, yn galluogi proses flaenoriaethu hysbys.

4.12 Casglwyd a chraffwyd y cynlluniau busnes ar gyfer bob ardal gan yr Uned Gynllunio Strategol a Chyllid Corfforaethol.

4.13 Cafodd y broses – yn arbennig y rhyngddibyniaethau – ei rheoli drwy'r Grŵp Cynllunio Sefydliadol gyda Phrif Uwch-arolygydd y Gwasanaethau Corfforaethol yn gadeirydd ac Arweinwyr Gweithredol a Gwasanaeth yn bresennol. Mae hyn yn galluogi i strategaeth gorfforaethol gael ei datblygu a'i chyflwyno i Brif Swyddogion yn hytrach na phroses gystadleuol.

4.14 Meysydd eraill a gafodd eu hystyried yn benodol oedd:

- Cyfleusterau a TG, yn cysylltu â gweithio hyblyg a datblygiadau eraill
- Costau Ynni
- Cynaliadwyedd
- Arian Cyfalaf
- Argaeledd cyfyngedig swyddogion ychwanegol annibynnol o'r ymgyrch Uplift yn dilyn hyfforddiant cychwynnol
- Adolygu Cyllidebau Corfforaethol

4.15 Cynhaliwyd dau gyfarfod gyda thîm y Prif Swyddog i gytuno ar ganlyniad y broses gynllunio. Roedd hyn yn caniatáu defnyddio adnoddau hysbys ar gyfer blaenoriaethau a llywio dyrannu'r Swyddogion Heddlu o gam terfynol ymgyrch Uplift yn ogystal ag arbedion effeithlonrwydd eraill. Yna, trafodwyd y canlyniad yng nghyfarfod blynyddol Gosod y Gyllideb gydag Arweinwyr Gwasanaeth ac eraill gan ddod ag argymhellion y Grŵp Cynllunio Sefydliadol, yn cynnwys Cynlluniau Arbedion a'r holl elfennau eraill, at ei gilydd i lunio'r CATC hwn. Roedd hyn wedyn yn ffurfio'r cynnig a gyflwynwyd i'r Comisiynydd a'i dîm.

4.16 Cynhaliwyd cyfarfod rhwng y Comisiynydd, y Prif Gwnstabl a'u cynrychiolwyr ar 8 Rhagfyr 2023 i drafod cynigion y gyllideb, a chynhaliwyd cyfarfodydd terfynol ar 19 a 20 Rhagfyr 2023 ar ôl i Lywodraeth y DU a Chymru wneud y cyhoeddiadau cyllid.

4.17 Mae'r adrannau canlynol yn rhoi manylion yr holl ddatblygiadau ers y CATC blaenorol, gan nodi'r sefyllfa ddiweddaraf ar gyfer Refeniw, Cyfalaf a Chronfeydd Wrth Gefn.


## 5. Cyllideb 2023-24 (Y Flwyddyn Ariannol Bresennol)

5.1 Cynyddwyd y gyllideb ar gyfer 2023-2024 o 3.68%, roedd angen y mwyafrif o'r cynnydd hwn i ariannu gofynion chwyddiant o dros 7%. Mae arbedion o dros 2% o'r gyllideb a defnydd darbodus o'r fantolen gref wedi lleihau pwysau'r ffigurau chwyddiant uchel. Cynyddwyd cyllid y Swyddfa Gartref Gyffredinol o 0.35%, ac mae cyflwyniad premiymau ail gartrefi mewn rhai awdurdodau lleol hefyd wedi arwain at gynnydd o 6.8% yng nghyfanswm praeseptau. Cyflwynwyd cynnydd o 5.14% ar filiau Treth y Cyngor. Ariannwyd twf a gofynion ychwanegol gan gyfuniad o arbedion a ffrydiau incwm ychwanegol ac ystyriodd yr Heddlu ei barodrwydd i dderbyn risg mewn

sawl maes wrth osod y gyllideb, megis mewn perthynas â throsiant staff. Mae'r newidiadau wedi'u crynhoi isod:

| | | £m | |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb 2022/23** | | **182.268** | |
| Chwyddiant cyflogau a chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau | | 13.012 | 7.13% |
| Arbedion a ganfuwyd | | -3.753 | -2.06% |
| Cyllid dros dro | | -2.362 | -1.30% |
| Grantiau Penodol Ychwanegol | | -1.442 | -0.79% |
| Twf | | 1.236 | 0.68% |
| | | | |
| **Gofynion Cyllideb 2023/24** | | **188.959** | 3.68% |
| | | | |
| **Amcangyfrif o gyfanswm cyllid 2023/24** | | | |
| Grantiau'r Llywodraeth | | 88.715 | 0.35% |
| Treth y Cyngor | £333.09 | | 5.14% |
| Wedi'i luosi â'r sylfaen drethu | 300,952.56 | | 1.58% |
| Praesept (cyfran cyllid 53.05%) | | 100.244 | 6.80% |
| **Cyfanswm y cyllid ar gael** | | **188.959** | **3.68%** |

5.2 Nodwyd arbedion o £3.753 miliwn ac mae'r rhain ar y trywydd iawn i gael eu cyflawni ym mlwyddyn ariannol 2023-24. Mae'r arbedion wedi'u crynhoi isod:



5.3 Nodwyd cyfanswm buddsoddiadau newydd o £1.236 miliwn yn seiliedig ar broses flaenoriaethu ofalus i'w gweithredu yn 2023-24. Mae'r rhain ar y trywydd iawn i gael eu gweithredu'n llawn yn 2023-24 a cheir crynodeb ohonynt isod:




5.4 2022-23 oedd y drydedd a blwyddyn olaf yr Ymgyrch Uplift (Rhaglen y Llywodraeth i gynyddu nifer Swyddogion yr Heddlu o 20,000 yn Genedlaethol). Y cyfanswm a ddyrannwyd i Heddlu Gogledd Cymru dros y 3 mlynedd oedd 206, sydd wedi cynyddu'r swyddi sefydledig i 1,696 swyddog cyfwerth â llawn amser. Dyrannwyd y swyddi ychwanegol yn ofalus drwy'r broses gynllunio dros y 3 blynedd diwethaf.

Cyrhaeddwyd targed recriwtio'r Heddlu erbyn 31 Mawrth 2023, gyda chyfran o Swyddogion yn dal i gwblhau'r hyfforddiant yn ystod 2023-24. Dengys dyraniad terfynol y Swyddogion ychwanegol a fydd yn mynd drwy broses gynllunio 2024-25 yn y tabl isod.

| Maes Gwasanaeth | Uwcharolygydd | Prif Arolygydd | Arolygydd | Sarsiant | Cwnstabl | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Gwasanaeth Heddlu Lleol | 0 | 2 | 1 | 3 | 92 | 98 |
| Cefnogaeth Heddlu Gweithredol | 0 | 1 | 1 | 2 | 6 | 10 |
| Gwasanaethau Trosedd | 0 | 1 | 3 | 9 | 46 | 59 |
| Gwasanaethau Corfforaethol/Cyllid ac Adnoddau | 1 | 1 | 4 | 2 | 3 | 11 |
| Adran Safonau Proffesiynol | 0 | 0 | 0 | 0 | 3 | 3 |
| Plismona Rhanbarthol NWROCU | 0 | 0 | 0 | 0 | 11 | 11 |
| Hyfforddiant/Heb ei ddyrannu | 0 | 0 | 1 | 2 | 11 | 14 |
| **Cyfanswm y Swyddogion** | **1** | **5** | **10** | **18** | **172** | **206** |

5.5 Dyrannwyd swyddi i fodloni'r galw fel y nodwyd yn y broses gynllunio isod (ystyriwyd hyn ymhellach fel rhan o raglen Optimeiddio'r Heddlu fel yr amlinellir yn nes ymlaen yn yr adroddiad):

- Trefniadau Diogelu Rhyddid
    - 50 aelod cyfwerth â llawn amser yn y Tîm Ymateb
    - 20 aelod cyfwerth â llawn amser yn y Tîm Atal


    - 11 aelod cyfwerth â llawn amser yn yr Uned Datblygu Swyddogion Ar Brawf
    - 10 aelod cyfwerth â llawn amser yn y Tîm Rhagweithiol
    - 7 aelod cyfwerth â llawn amser arall yn y gwasanaethau Troseddau Gwledig/Aseswyr/Dangos y Drws i Drosedd
- Cefnogaeth Heddlu Gweithredol
    - 7 aelod cyfwerth â llawn amser yn yr Uned Ddronau
    - 3 aelod cyfwerth â llawn amser arall gan gynnwys y Tîm Rhyng-gipio, Uned Rheoli Adnoddau a'r Adran Gweinyddu Cyfiawnder
- Gwasanaethau Trosedd
    - 21 aelod cyfwerth â llawn amser yn y tîm Gwarchod Pobl Ifanc Ddiamddiffyn
    - 9 aelod cyfwerth â llawn amser yn y tîm Twyll/Ymchwiliadau Ariannol
    - 7 aelod cyfwerth â llawn amser yn y tîm Amethyst
    - 6 aelod cyfwerth â llawn amser yn yr Uned Troseddau Difrifol a Threfnedig
    - 4 aelod cyfwerth â llawn amser yn y tîm Gwyliadwriaeth
    - 4 aelod cyfwerth â llawn amser yn y tîm Ymchwil Cyfryngau Digidol
    - 8 aelod cyfwerth â llawn amser mewn timau eraill
- Gwasanaethau Corfforaethol/Cyllid ac Adnoddau
    - 2 Swyddog Staff cyfwerth â llawn amser
    - 2 aelod cyfwerth â llawn amser dros dro megis Cynrychiolydd Gweithlu, Sarsiant HMICFRS, CI ar gyfer Amrywiaeth a Dinasyddion mewn Plismona
    - 4 aelod cyfwerth â llawn amser mewn timau eraill
- 3 aelod cyfwerth â llawn amser yn y tîm Datblygiad Personol a Chymdeithasol
- 11 aelod cyfwerth â llawn amser yn y tîm NWROCU
- 14 aelod cyfwerth â llawn amser i'w dyrannu.

5.6 Er y bodlonwyd y targed Uplift ym mis Mawrth 2023, er mwyn cynnal niferoedd swyddogion ar y lefelau gofynnol, mae'n rhaid cynnal lefelau recriwtio'r tair blynedd diwethaf, sef 133, sy'n bron i ddwywaith y lefel cyn yr ymgyrch Uplift. Heddlu Gogledd Cymru sydd â'r nifer lleiaf o swyddogion yn gadael eu swyddi ar draws Plismona'r DU, fodd bynnag, mae'r gyfradd hon wedi cynyddu yn ystod cyfnod yr ymgyrch Uplift o gyfartaledd o lai na 2 y mis i oddeutu 4 y mis.

5.7 Rhagwelir tanwariant o £3.2 miliwn ar gyfer 2023-24 ar hyn o bryd. Mae hyn yn gyfystyr â thanwariant o 1.7% yn erbyn y gyllideb. Mae'r tanwariant o ganlyniad i Dâl yr Heddlu yn sgil y nifer cynyddol o ddiswyddiadau a throsiant, a Thâl Staff yn sgil y bwlch recriwtio ar gyfer staff cymorth. Defnyddiwyd rhywfaint o'r tanwariant hwn ar oramser er mwyn atgyfnerthu'r adnoddau sydd ar gael yn y tymor byr, a'r tanwariant cyffredinol a ragwelir yw £1.544 miliwn, sef 0.93% o'r gyllideb tâl (sy'n cyfrif am 73% o gyllidebau gwariant cyffredinol).


5.8 Mae'r tanwariant hwn o ganlyniad i incwm ychwanegol a gynhyrchwyd neu a dderbyniwyd yn ystod y flwyddyn yn bennaf drwy gyfraddau llog uwch, Ymgyrch Ddiogelu Genedlaethol gyda Diogelwch Ffiniau, a Grant Uplift ychwanegol am ragori ar y targed Swyddogion Uplift o dros 10 ar ddiwedd mis Medi 2023 a mis Mawrth 2024.

5.9 Dengys yr amrywiadau ar ddiwedd y flwyddyn yn y graff isod ac mae’r prif resymau dros y tanwariant wedi cael eu hystyried ymhellach wrth osod Cyllideb 2024/25:




5.10 Ym mis Chwefror 2023, derbyniodd yr Heddlu adroddiad yr Asesiad PEEL (Effeithlonrwydd, Effeithiolrwydd a Chyfreithlondeb) gan Adolygiadau PEEL HMICFRS. Aseswyd bod yr Heddlu’n gwneud defnydd ‘Digonol’ o’i adnoddau. Roedd y cwestiwn lefel uchel yn gofyn *‘Pa mor dda yw'r heddlu am arwain a rheoli ei wasanaethau i wneud yn siŵr eu bod yn effeithlon, yn effeithiol ac yn gynaliadwy?’*

Y ddau brif faes i’w gwella a nodwyd oedd dealltwriaeth o’i allu i sicrhau ei fod yn defnyddio adnoddau’n fwy effeithiol - roedd y Rhaglen Optimeiddio’n mynd i’r afael â hyn yn benodol, a’r broses gynllunio’n gyffredinol, a’r ail faes oedd cyfathrebu cynlluniau ariannol a’r heriau a wynebir - roedd cynlluniau eisoes yn cael eu hadrodd ar lefel weithredol a bwrdd, ond mae camau pellach wedi cael eu cymryd i ddiweddaru ar sail ehangach, gan gynnwys blogiau fideo Prif Swyddogion, mae HMICFRS bellach wedi cydnabod bod y maes hwn wedi cael ei gwblhau. Gweler isod grynodeb o sefyllfa HGC o’i gymharu â Heddluoedd eraill, ac mae Heddluoedd Cymru a Heddluoedd tebyg eraill wedi cael eu hamlygu ar yr atodlen:



5.11 Ar adeg paratoi'r ddogfen hon, nid oedd Archwilio Cymru wedi cyhoeddi ei lythyr archwilio blynyddol a gaiff ei gyhoeddi ym mis Tachwedd fel arfer. Mae hyn o ganlyniad i oedi mewn archwiliadau Awdurdodau Lleol, gyda phob llythyr archwilio yn cael eu cyhoeddi ar yr un pryd. Mae'r set ddiweddaraf o gyfrifon wedi eu cadarnhau gan Archwilio Cymru. Fe wnaeth Archwilio Cymru'r sylwadau canlynol ar eu hasesiad gwerth am arian yn eu llythyr archwilio blynyddol a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2023:

'*Mae'r datganiadau ariannol a baratowyd gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl yn cyflwyno darlun gwir a theg o'u sefyllfa ariannol a'u trafodion.*

*'Rwyf yn fodlon bod gan y Comisiynydd a'r Prif Gwnstabl drefniadau priodol ar waith i sicrhau darbodusrwydd, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd wrth ddefnyddio adnoddau.'*

Gellir gweld y llythyr archwilio blynyddol diweddaraf yn: Llythyr Archwilio Blynyddol 2021-22

5.12 Mae'r ddau asesiad yn dangos bod y cyllidebau'n cael eu rheoli'n effeithiol a bod yr Heddlu'n perfformio'n dda o ran sicrhau'r deilliannau gorau posib' gyda'r adnoddau sydd ar gael, sydd hefyd yn cael ei adlewyrchu ym marn yr Adain Archwilio Mewnol. Mae'r bylchau a nodwyd yn ymwneud â gwella dealltwriaeth a gwneud y mwyaf o'r adnoddau sydd ar gael, a chyfathrebu cynlluniau ariannol, ac mae camau wedi cael eu cymryd i fynd i'r afael â hyn.

## 6. Dyraniadau Cyllid a rhagdybiaethau

6.1 Ni roddodd y Llywodraeth Ddyraniadau Cyllid Dros Dro ar gyfer 2024-25 ar lefel yr Heddlu fel rhan o setliad 2023-24. Fodd bynnag, o'r cynnydd dangosol yng nghyllidebau'r Swyddfa Gartref ar gyfer 2024-25, gellir disgwyl cynnydd o £1.68% (£1.5m) yn rhesymol. Gwnaed cyhoeddiadau yn ystod 2023-24 i gadarnhau ymrwymiad parhaus y Llywodraeth i Ymgyrch Uplift a chynyddu niferoedd Swyddogion Heddlu o 20,000 ar draws y DU, a chynnal y cynnydd hwnnw i'r dyfodol. Rhoddwyd gwobrau tâl o 7% i Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu o fis Medi 2023, a chyhoeddodd y Swyddfa Gartref £515 miliwn o gyllid tuag at y gwobrau tâl, a oedd yn gyfystyr â £5.3 miliwn i Heddlu Gogledd Cymru. Cyhoeddwyd hefyd y byddai Cyfraddau Pensiwn Cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu'n cynyddu o 4.4% ac y byddai'r cynnydd hwn yn cael ei ariannu gan y Trysorlys/Swyddfa Gartref, ond ni chyhoeddwyd unrhyw ffigurau.

6.2 Cyhoeddwyd Setliad Dros Dro 2024-25 ar 14 Rhagfyr 2023 mewn datganiad gweinidogol ysgrifenedig gan Weinidog Troseddau, Plismona a Thân, y Gwir Anrhydeddus Chris Philp AS. Mae chwyddiant y gorffennol wedi cael effaith ar bŵer gwariant plismona. Yn 2023-24, dangosodd Arolwg Cyllideb PACCTS gyfanswm pwysau chwyddiannol o gynnydd o £639 miliwn mewn cyllidebau. Roedd hyn yn uwch

na’r cynnydd o £454 miliwn yng nghyfanswm y cyllid a roddwyd i Heddluoedd y llynedd. Pe bai pwysau twf eraill yn cael eu cynnwys, byddai’r heddluoedd yn wynebu cynnydd o bron i £1 biliwn mewn costau o’i gymharu â’r flwyddyn gynt. Mae’r Llywodraeth wedi cydnabod chwyddiant cyflogau ac wedi darparu £330 miliwn ychwanegol yn 2023/24.

6.3 **Grant Uplift yr Heddlu** - Cyn cyhoeddi’r setliad dros dro, roedd y sector yn disgwyl parhad o gyllid Uplift ychwanegol i recriwtio’r swyddogion terfynol (tuag at y cyfanswm o 20,000). Mae’r Datganiad Gweinidogol yn cadarnhau cyllid parhaus o £425 miliwn i gynnal niferoedd swyddogion ar (148,433 yn fyd-eang). O fewn y cyllid hwn, mae £67.2 yn cynrychioli “grant cyflenwol recriwtio ychwanegol” ar gyfer heddluoedd sydd wedi cytuno i recriwtio swyddogion ychwanegol. Mae’r £357.8 miliwn sy’n weddill wedi’i neilltuo, a ddyrannwyd drwy gyfrannau cyllid fformiwla a bydd Comisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn gallu cael mynediad at y cyllid hwn, yn yr un modd â blynyddoedd blaenorol, drwy ddangos eu bod wedi cynnal eu nifer Swyddogion. Mae cyfanswm Grant Uplift yr Heddlu (425 miliwn) wedi cynyddu o £150 miliwn, a addawyd yn yr adolygiad o wariant, sy’n ysgogiad cryfach fyth i gynnal niferoedd Swyddogion. Bydd termau real y grant yn cael eu cyhoeddi’n gynnar y flwyddyn nesaf.

**6.4** **Gwobrau Tâl £515 miliwn** - Mae cyllid cyflogau wedi cael ei ychwanegu i’r cyllid craidd ar gyfer tâl. Mae’r datganiad gweinidogol yn amlygu bod £330 miliwn o’r ffigwr hwn wedi cael ei ddarparu yn ystod y flwyddyn yn 2023-24 gyda £185 miliwn ychwanegol ar gyfer 2024-25. Mae unrhyw gymariaethau â data’r llynedd yn ffigurau’r Swyddfa Gartref bellach yn cynnwys y £330 miliwn ychwanegol a ddyrannwyd yn 2023-24. Mae hyn yn dangos fod y cyllid hwn yn sylfaenol ar gyfer adolygiadau gwariant i’r dyfodol. Mewn egwyddor, mae’n golygu fod rhywfaint o’r cynnydd a ddisgwylir ar gyfer gwobrau tâl wedi’i gynnwys yn y grant penodol ar gyfer yr ymgyrch Uplift, mae elfen o risg ynghlwm â hyn o ran bodloni telerau Grant Uplift yr Heddlu a thynnu’r grant penodol yn ôl yn y dyfodol.

6.5 **Grant Pensiynau** - mae cyllid ychwanegol ar gyfer Pensiynau’r Heddlu i liniaru effaith cyfraniadau pensiynau cynyddol y cyflogwr. Tan y datganiad diwethaf, roedd grantiau pensiynau wedi aros yr un fath, gyda chyfanswm o £142.6 miliwn. Fodd bynnag, cadarnhaodd y Gweinidog y byddai £259 miliwn ychwanegol yn cael ei ychwanegu at y grant hwn, yn ogystal â grant gweinyddol untro o £26.8 miliwn (ar gyfer pwysau gweithredol yn ymwneud â dyfarniad McCloud), gan roi cyfanswm cyllid o £428.3 miliwn. Mae dyraniadau CHTh unigol o’r Grant Pensiynau wedi newid rhywfaint yn y Setliad Dros Dro. Mae hyn o ganlyniad i’r Swyddfa Gartref yn defnyddio niferoedd staffio cyfartalog i ddyrannu’r cyllid yn hytrach na dyraniadau fformiwla ariannu.

6.6 **Ail-ddyraniadau -** Cyfanswm yr ail-ddyraniadau (y cyfeirir atynt hefyd fel ‘dyraniadau haen uchaf’) ar gyfer 2024-25 yw £1,038.1 miliwn, gostyngiad o £76 miliwn o 2023-24 (£1,114.0m). Gostyngwyd ail-ddyraniadau o £259.7 miliwn hefyd rhwng 2022-23 a 2023-24. Eleni, y gostyngiad mwyaf i gyllid oedd gostyngiad o £25.6 miliwn mewn rhaglenni technoleg, £19.5 miliwn mewn gallu plismona cenedlaethol yn ail a £16 miliwn mewn grantiau arbennig yn drydydd. Tynnwyd galluogrwydd gostwng troseddu’n llwyr, gan arbed £18.4 miliwn. Fodd bynnag, roedd cynnydd sylweddol

mewn ail-ddyraniadau cyfalaf, o £23.8 miliwn, ceir crynodeb o hyn yn nes ymlaen yn y briff. Mae'r tabl isod yn dangos y gwahaniaeth rhwng ail-ddyraniadau rhwng blynyddoedd.

| Top Slice | 2023-24 (£'m) | 2024-25 (£'m) | Change |
|---|---|---|---|
| Special Grant | 50.0 | 34.0 | -16.0 |
| PFI | 71.6 | 71.2 | -0.4 |
| Arm's Length Bodies | 74.7 | 65.7 | -9.0 |
| Police Technology Programmes | 526.4 | 500.9 | -25.6 |
| National Policing Capabilities | 69.3 | 49.8 | -19.5 |
| Forensics | 20.6 | 13.0 | -7.6 |
| Crime Reduction Capabilities | 18.4 | 0 | -18.4 |
| Fraud | 18.1 | 18.1 | 0.0 |
| Regional and Organised Crime Units | 39.5 | 31.6 | -7.9 |
| Serious Violence | 45.6 | 45.6 | 0.0 |
| Drugs / County Lines | 30.0 | 30.0 | 0.0 |
| NPCC Programmes | 9.5 | 7.7 | -1.8 |
| Capital Reallocations | 104.9 | 128.7 | 23.8 |
| Cyber Crime* | 14.1 | 13.1 | -1.0 |
| Tackling Exploitation and Abuse | 21.3 | 17.6 | -3.7 |
| Police Productivity and Innovation | | 11.0 | 11.0 |
| **Total Reallocations and adjustments** | **1,114.0** | **1,038.1** | **-76.0** |

6.7 Cyhoeddwyd cynnydd o 5.97% yng nghyllid grant sylfaenol y Swyddfa Gartref. Yn ogystal â hyn, cynyddwyd Grant Uplift yr Heddlu o £1.545 miliwn a fydd yn cael ei gynnwys yn y prif grant ar ryw bwynt, drwy gyfuno'r symiau hyn, ceir cynnydd o 7.5% yng nghyllid y Swyddfa Gartref, sy'n adlewyrchu'r wobr tâl o 7% o fis Medi 2023. Gwnaed cynnydd pellach o £3.173 miliwn yng Ngrant Pensiwn Penodol yr Heddlu, mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd mewn costau o ganlyniad i'r cynnydd yng nghyfradd cyfraniadau'r cyflogwr at Bensiwn yr Heddlu. Ar y cyfan, cynyddodd y cyllid cylchol disgwyliedig o 10.75%. Roedd y cyfanswm £0.290 miliwn yn fwy na'r hyn a dybiwyd yn y ffigurau cynllunio terfynol. Mae'r grantiau hyn wedi'u crynhoi isod:

| | CATC Ionawr 2023 | CATC Ionawr 2023 yn ogystal â'r cynyddiadau disgwyliedig | Y Swyddfa Gartref yn Cyhoeddi Rhagfyr 2023 | Cynnydd o 2023-24 | Gwahaniaeth o'r hyn a ddisgwyliwyd |
|---|---|---|---|---|---|
| | **2023-24** | **2024-25** | **2024-25** | **2024-25** | **2024-25** |
| **Grant** | £88,714,919 | £95,520,705 | £94,011,691 | £5,296,772 | -£1,509,014 |
| **Uplift** | £2,833,187 | £2,833,187 | £4,378,561 | £1,545,374 | £1,545,374 |
| **Grant Pensiwn** | £1,582,031 | £4,502,051 | £4,755,540 | £3,173,509 | £253,489 |
| **Cyfanswm** | **£93,130,137** | **£102,855,943** | **£103,145,792** | **£10,015,655** | **£289,849** |

6.8 Cyhoeddwyd cyllid anghylchol eraill fel rhan o'r cyhoeddiad hefyd. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:

**Cyllid Pensiynau**
£0.318 miliwn tuag at weithredu'r newidiadau sy'n ofynnol yn sgil y dyfarniad McCloud yn bennaf yn ymwneud â systemau TG Pensiynau sydd angen eu diweddaru i adlewyrchu'r gofyniad i ddarparu ffigurau'n ymwneud â chynlluniau Pensiwn presennol a hanesyddol.

**Cyllid Ymddygiad Gwrthgymdeithasol**
Treialwyd cyllid ar gyfer ardaloedd lle ceir nifer uchel o achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol mewn 10 heddlu ac ystyrir ei fod wedi llwyddo i:

- wella hyder y cyhoedd
- lleihau achosion o ymddygiad gwrthgymdeithasol yn sylweddol
- gorgyffwrdd gyda meysydd ymddygiad gwrthgymdeithasol a thrais

Disgwylir i Heddlu Gogledd Cymru dderbyn £1 miliwn o gyllid at y diben hwn yn 2024-25. Bydd manylion yn cael eu cyhoeddi maes o law.

**Cyllid Strydoedd Mwy Diogel**
Mae'r cynllun Strydoedd Mwy Diogel wedi bod yn weithredol ers sawl blwyddyn. Cyfeiriodd y cyhoeddiad at Strydoedd Mwy Diogel 5 yn y llythyr:

*"… Rydym hefyd bellach wedi cwblhau dyraniadau Cylch 5 Strydoedd Mwy Diogel ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Y cyllid sydd ar gael ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25 yw £15 miliwn. O ganlyniad, bydd yn rhaid i bob ardal heddlu dderbyn oddeutu £350,000 ar gyfer blwyddyn ariannol 2024-25. Bydd canllawiau atodol yn cael eu cyhoeddi ar gyfer Strydoedd Mwy Diogel yn fuan, gan amlygu ble rydym wedi cyflwyno rhagor o hyblygrwydd i ofynion y Cytundeb Grant i gefnogi'r heddluoedd."*

Mae manylion y grantiau penodol hyn a grantiau eraill nad ydynt wedi cael eu cyhoeddi ar lefel yr Heddlu'n cael eu hasesu.

6.9 Nid yw'r polisi Plismona wedi'i ddatganoli i Lywodraeth Cymru a darperir cyllid i'r pedwar Heddlu yng Nghymru drwy drefniant tair ffordd sy'n cynnwys y Swyddfa Gartref, Llywodraeth Cymru a threth y Cyngor. Er bod rhan o'r prif grant yn cael ei thalu gan Lywodraeth Cymru, swm trosglwyddo yw'r rhan honno a chaiff gweddill yr arian ei osod gan fformiwla'r Swyddfa Gartref sy'n golygu bod yr ardaloedd Plismona yn Lloegr a Chymru'n derbyn yr un cynnydd i'r grant sylfaenol. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru wedi darparu grantiau penodol ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Cyswllt Ysgolion. Mae trafodaethau wedi bod yn mynd rhagddynt dros y misoedd diwethaf am gyllid Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, a disgwylir gostyngiad sylweddol. Cadarnhawyd hefyd y bydd cyllid Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn dod i ben yn 2024-25 a fydd yn cynrychioli gostyngiad o £0.388 miliwn yng nghyllid Heddlu Gogledd Cymru.

6.10 Mae lefel uchel o ansicrwydd o ran cyllid i'r dyfodol gydag etholiad cyffredinol yn debygol o gael ei gynnal yn 2024.

6.11 Nid oes unrhyw sôn penodol am yr adolygiad o Fformiwla Ddyrannu'r Heddlu yn y cyhoeddiad, ond mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu grwpiau i adolygu'r fformiwla ac mae gwaith yn parhau. Y grant gwaelodol ar hyn o bryd yw £23.3 miliwn. Hynny yw, pe bai'r fformiwla gyfredol yn cael ei gweithredu'n llawn, byddai £23.3 miliwn yn llai o gyllid i Heddlu Gogledd Cymru. Nid yw'r fformiwla gyfredol erioed wedi cael ei gweithredu'n llawn a disgwylir y byddai'r adolygiad yn cyflwyno fformiwla newydd. Bydd hyn yn parhau i gael ei adolygu gan y gallai gael effaith fawr ar Heddlu Gogledd Cymru.

6.12 Roedd y tybiaethau mewn perthynas â chyllid sylfaenol a ddefnyddiwyd yn ystod y broses gynllunio'n yn seiliedig ar y gred y byddai'r cyllid terfynol ychydig yn uwch na'r disgwyl. Fodd bynnag, gwrthbwyswyd hyn gan y gostyngiad mewn grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru a gyhoeddwyd yn hwyr yn ystod y cylch cynllunio.

## 7. Treth y Cyngor a'r Praesept

7.1 Mae dwy brif elfen i gyfanswm net Cyllideb yr Heddlu, sef cyfanswm Grantiau'r Heddlu a'r Praesept. Mae cynnig y gyllideb yn cynnwys cynnydd o 4.97% yn Nhreth y Cyngor, neu £16.56 ar Dreth y Cyngor Band D. Mae'r Sylfaen Drethu ar gyfer ardal gyfan Gogledd Cymru wedi codi 0.99%, sy'n golygu cynnydd cyffredinol o 6.0% yn y Praesept a chyfanswm cyllideb net o £200.281 miliwn, cynnydd cyffredinol o 6% i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd, fel a ganlyn:

| | 2024-25 | |
|---|---|---|
| | | |
| | £m | % |
| **Cyfanswm Grantiau'r Llywodraeth** | 94.012 | 46.94% |
| | | |
| **Cyfanswm y Praesept** | 106.269 | 53.06% |
| | | |
| **Cyfanswm Angenrheidiol ar gyfer y Gyllideb** | 200.281 | |
| | | |

7.2 Cyfrifir Treth y Cyngor drwy rannu'r cyfanswm sy'n angenrheidiol o'r praesept gyda'r sylfaen drethu – y sylfaen drethu yw nifer y cartrefi cyfwerth â Band D sydd yn ardal pob Heddlu. Darperir y Sylfaen Drethu gan chwe Awdurdod Lleol Gogledd Cymru. Mae'r sylfaen drethu ar gyfer 2024-25 wedi codi 0.99%. Mae hyn yn uwch na'r 0.25% a gafodd ei amcangyfrif, yn bennaf gan fod tri awdurdod wedi cynyddu'r premiwm ar gartrefi gwag ac ail gartrefi. Mae hyn yn golygu y gellir cyflawni'r cynnydd canrannol yn y praesept gyda chynnydd canrannol is yn nhreth y cyngor. Mae cyfran o'r cynnydd hefyd yn adlewyrchu cynnydd mewn aelwydydd yng Ngogledd Cymru. Mae cyfanswm y cynnydd yn sgil y cynnydd yn y sylfaen drethu'n oddeutu £1 miliwn.

7.3 Mae’r rheolau Cymru ar gyfyngu ar y cynnydd yn Nhreth y Cyngor, neu 'reolau capio', yn wahanol i rai Lloegr. Yn ychwanegol, mae grantiau ar wahân wedi parhau i fod ar gael i Gomisiynwyr yr Heddlu a Throsedd yn Lloegr os oeddent yn cytuno i gyfyngu ar gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn y blynyddoedd diwethaf. Roedd y rhain yn arfer cael eu talu gan yr Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol ond fe gawsant eu cynnwys yng Ngrant y Swyddfa Gartref ac roeddent werth cyfanswm o £507 miliwn yn 2024-25. Mae’r grant hwn yn gostwng Treth y Cyngor gan gyfartaledd o £27 ar gyfer Comisiynwyr Heddlu a Throsedd yn Lloegr. Treth y Cyngor yng Ngogledd Cymru yw'r uchaf yng Nghymru a Lloegr ond pe bai’r Grantiau Treth y Cyngor hyn yn cael eu cyfrif, byddai Gogledd Cymru yn y 4ydd safle uchaf.

7.4 Nid oes unrhyw reolau capio na chynnydd rhagdybiedig wedi cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru. Mae hyn yn cyd-fynd â’r blynyddoedd diwethaf.

**8. Cyllideb 2024-25 a Chyllideb Gynlluniedig 2025-26 i 2028-29**

8.1 Mae manylion y Gyllideb a’r newidiadau ar gyfer 2024-25 a’r blynyddoedd i ddod i’w gweld yn Atodiad B.

8.2 Mae’r prif ragdybiaethau a’r newidiadau o CATC Ionawr 2023 fel a ganlyn:

- Chwyddiant tâl blynyddol o 7% o fis Medi 2023 i fis Awst 2024, y rhagdybiaeth flaenorol oedd 2.5%.
- Cynnydd dyfarniad cyflog o 2.5% y flwyddyn o fis Medi 2024 ymlaen, gyda chyfwerth o 0.5% wedi’i glustnodi mewn cronfeydd wrth gefn i liniaru dyfarniad uwch ym mis Medi 2024.
- Cynnydd uwch mewn cynyddrannau wedi'u cynnwys wrth i Swyddogion Uplift symud ymlaen drwy'r graddau, mae hyn wedi gostwng yn 2024-25 i adlewyrchu cynnydd mewn ymddiswyddiadau.
- Chwyddiant Cyffredinol wedi'i gyfrifo fesul llinell ar gyfer 2024-25, y cyfartaledd cyffredinol yw tua 5.5%, cyfradd o 7% a ddefnyddir os nad oes ffigur penodol. Tybir cynnydd o 2% yn 2025-26 ymlaen lle nad yw'r swm yn hysbys.
- Wedi edrych ar gynnydd mewn ynni dros gyfnod o 3 blynedd i ddelio ag amrywioldeb. Swm a ariennir gan gronfa wrth gefn wedi'i dynnu o'r gyllideb, ond mae'r gronfa wrth gefn yn dal yno. Cyllideb yn seiliedig ar amcangyfrif o'r gost a gyfrifwyd gydag ymgynghorwyr ynni.
- Cynnydd o 4.97% yn 2024-25 (£16.56) a £13 y flwyddyn yn Nhreth y Cyngor yn y blynyddoedd dilynol, sy’n cyfateb i 3.72% yn 2025-26, 3.58% yn 2026-27, 3.46% yn 2027-28 a 3.35% yn 2028-29. Wedi cynyddu o £12 yn CATC mis Ionawr 2023 yn sgil pwysau o ran costau.

- Grantiau Cyffredinol y Llywodraeth yn cynyddu 5.97% yn 2024-25 ac 1% ar gyfer y blynyddoedd a ganlyn.

- Bod y grant sylfaenol yn cynnwys Uplift a’r holl gynnydd eraill (hynny yw nad oes unrhyw gyllid ychwanegol ar gyfer cynnydd cynyddrannau Swyddogion Uplift yn y dyfodol).

- Cyfradd Cyflogwyr Swyddogion Heddlu wedi cynyddu 4.3% ac fe'i hariannir gan grant penodol ychwanegol.

- Bod y Grant Cyfalaf wedi’i dynnu’n ôl, bydd buddsoddiad cyfalaf yn cael ei ariannu drwy gyfuniad o gyllid uniongyrchol, cronfeydd wrth gefn a benthyca, oll yn deillio o’r gyllideb refeniw.

- Cynnydd o 0.99% yn y sylfaen drethu ar gyfer 2024-25. Cynnydd o 0.25% yn y sylfaen drethu o 2025-26 ymlaen. Efallai y bydd cynnydd pellach yn y premiwm ar ail gartrefi ond efallai y bydd gostyngiad yn nifer yr ail gartrefi hefyd, a fyddai’n gostwng y sylfaen.

- Ni fydd y Rhwydwaith Gwasanaethau Brys yn cael ei rhoi ar waith yn ystod y cyfnod a gwmpesir gan y CATC hwn bellach, ac felly mae wedi'i ddileu o'r amcangyfrifon refeniw. Mae'r gronfa wrth gefn yno o hyd.

- Cyfraniadau i’r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol i sicrhau nad yw’r balans yn disgyn yn is na’r isafswm o 3% o werth y Gyllideb Refeniw Net. Mae £0.125m wedi’i gynnwys yn y gyllideb o 2027-28.

- Bydd grantiau penodol ar gyfer Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn cael eu tynnu’n ôl, bydd y grant ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn cael ei ostwng.

Bydd hyn yn rhoi’r sefyllfa gyffredinol ganlynol:

| | Blynyddol | Blynyddol | Blynyddol | Blynyddol | Blynyddol |
|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** | **Cyllideb** |
| | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** |
| | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 | £’000 |
| Gwaelodlin | 188,959 | 200,281 | 206,720 | 214,611 | 221,667 |
| Tâl Chwyddiant | 11,154 | 5,237 | 6,595 | 5,632 | 5,821 |
| Cynnydd mewn cyfradd Cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu | 2,880 | | | | |
| Chwyddiant nad yw’n gysylltiedig â chyflog | 2,236 | 1,202 | 1,296 | 1,424 | 1,231 |
| Cynnydd Grant Penodol Uplift | -1,545 | | | | |
| Cynnydd Grantiau Pensiwn | -3,174 | | | | |
| Arbedion | -3,171 | | | | |
| Twf Strwythurol | 927 | | | | |
| Twf | 1,239 | | | | |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Colli grantiau Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a grantiau Swyddogion Cyswllt Ysgolion | 776 | | | | |
| **Gofynion Cyllideb 2023/24** | **200,281** | **206,720** | **214,611** | **221,667** | **228,719** |
| Cyfanswm | -94,012 | -94,952 | -95,901 | -96,860 | -97,829 |
| Praesept o Dreth y Cyngor | -106,269 | -110,496 | -114,743 | -119,011 | -123,299 |
| **Cyfanswm** | **-200,281** | **-205,448** | **-210,644** | **-215,871** | **-221,128** |
| **Bwlch yn y Gyllideb** | **0** | **1,272** | **3,967** | **5,796** | **7,591** |
| **Arbedion i'w canfod yn y flwyddyn (heb eu nodi eto)** | 0 | 1,272 | 2,695 | 1,829 | 1,795 |
| **% y cynnydd yn Nhreth y Cyngor** | 4.97% | 3.72% | 3.58% | 3.46% | 3.35% |
| **£ o gynnydd yn Nhreth y Cyngor** | 16.56 | 13 | 13 | 13 | 13 |
| | | | | | |


8.3 Roedd y cylch cynllunio'n canolbwyntio ar alinio adnoddau a blaenoriaethau wrth osod cyllideb gytbwys a darparu gwerth am arian i dalwyr treth lleol dros y tymor canolig fel y nodwyd yn y Strategaeth Ariannol. Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodwyd, yr allbynnau a'r materion penodol a ddeliwyd â nhw fel rhan o'r cylch oedd:

- Aliniad strategol gwariant tuag at flaenoriaethau'r heddlu.
- Chwyddiant -
  - chwyddiant uchel yn gysylltiedig â chyflog
  - chwyddiant uchel nad yw'n gysylltiedig â chyflog
  - cynnydd yng nghyfradd Bensiwn Cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu
- Arbedion -
  - Arbedion maes gwasanaeth
  - Arbedion Gweithredol a Chorfforaethol
- Twf -
  - Ail-flaenoriaethu Swyddogion yr Heddlu
  - Rhaglen Optimeiddio
  - Twf Strwythurol
  - Twf galw a blaenoriaeth
  - Galw dadleoledig
- Mantolen gref a'r duedd ddiweddar ar gyfer tanwariant ariannol wrth ystyried tybiaethau allweddol a pharodrwydd yr Heddlu i dderbyn risg ariannol.

8.4 **Chwyddiant** – Un o'r problemau mwyaf a ddaeth i'r amlwg ac a ddatblygodd dros y cyfnod cynllunio oedd y costau ychwanegol sydd ynghlwm â chwyddiant cyflogau. Mae hyn, ynghyd â chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflogau, wedi arwain at gynnydd o £16.4 miliwn yn sgil chwyddiant. Caiff hyn ei esbonio ymhellach yn yr adrannau isod:

| Categori | £ |
|---|---|
| Dyfarniad Cyflog 2.5% | 3,988,535 |
| Dyfarniad Cyflog Ychwanegol 7% | 7,197,774 |
| Cynyddrannau Uplift Swyddogion | -31,200 |

| | |
|---|---|
| Pensiwn Cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu | 2,878,616 |
| Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â chyflog | 2,236,340 |
| **Cyfanswm y cynnydd chwyddiannol** | **16,270,065** |
| Grant ychwanegol tuag at y cynnydd o 7% yn y gyfradd sylfaenol | -3,796,772 |
| Grant ychwanegol tuag at y cynnydd o 7% yn yr ymgyrch Uplift | -1,545,374 |
| Grant ychwanegol tuag at y cynnydd Pensiwn | -3,171,000 |
| Cyfanswm y cyllid ychwanegol | -8,513,146 |
| Chwyddiant net | **7,756,919** |




8.5 **Gwobrau tâl-** Roedd CATC Ionawr 2023 yn cynnwys rhagdybiaeth o gynnydd o 2.5% mewn dyfarniadau cyflog Swyddogion yr Heddlu a Staff o fis Medi 2023. Roedd y wobr derfynol yn cynnig cynnydd o 7%. Fe wnaeth hyn gynyddu'r chwyddiant tâl o £7.198 miliwn i gyfanswm o £11.186 miliwn. Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref y byddent yn darparu grant ychwanegol tuag at y gwobrau tâl uchel annisgwyl o uchel. Cyhoeddwyd cyfanswm o £5.342 miliwn o grant ychwanegol, roedd £3.797 miliwn o'r swm hwn yn grant sylfaenol a £1.545 miliwn wedi'i gynnwys yn y grant Uplift penodol. Arweiniodd hyn at fwlch ariannol heb ei gyllidebu o £1.856 miliwn.

8.6 **Cynyddrannau -** Disgwyliwyd costau cynyddrannol ychwanegol o £0.569 miliwn wrth i Swyddogion ychwanegol yr ymgyrch Uplift ddatblygu drwy'r pwyntiau cyflog, fodd bynnag, yn sgil y cynnydd mewn diswyddiadau, nid oedd hyn yn ofynnol yn y gyllideb gyflogau ddiweddar ac roedd gostyngiad bach o £0.031 miliwn wedi'i gynnwys. Mae costau cynyddrannau i'r dyfodol wedi cael eu cynnwys wrth i'r costau gynyddu o flwyddyn 5 ymlaen.

8.7 **Cyfradd Pensiwn Cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu -** Cyhoeddodd y Swyddfa Gartref ac Adran Actiwari'r Llywodraeth y byddai cyfradd Pensiwn Cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu'n cynyddu o 31% i 35.3% o fis Ebrill 2024. Bydd hyn yn arwain at gynnydd o £2.878 miliwn. Mae Cynllun Pensiwn yr Heddlu'n gynllun nas ariannir a gaiff ei

warantu gan y Trysorlys, dyrannwyd £3.171 miliwn o gyllid ychwanegol i Heddlu Gogledd Cymru.


8.8 **Chwyddiant nad yw'n gysylltiedig â thâl** - mae'r cynnydd cyffredinol o £2.236 miliwn yn oddeutu 3.6% o'r gyllideb nad yw'n gysylltiedig â staff o £62.5 miliwn. Fodd bynnag, mae hyn yn cynnwys rhai gostyngiadau mewn meysydd megis ynni, er bod y costau'n llawer uwch nag yr oeddynt ddwy flynedd yn ôl, maent yn is na'r hyn a ddisgwyliwyd yr adeg yma'r llynedd. Adolygwyd y llinellau cyllidebol fesul llinell a'r chwyddiant penodol a ddefnyddiwyd lle bo modd. Mae gennym rai contractau gyda chynnydd ar sail CPI blynyddol yn cael ei ddefnyddio ar yr adeg, gan arwain at gyfraddau chwyddiant uchel 2024 yn bwydo i mewn i gostau 2024-25.

- **Chwyddiant cyffredinol nad yw'n gysylltiedig â thâl CATC** - Dyma'r chwyddiant sylfaenol o 7% sydd wedi'i gynnwys yn CATC Ionawr 2023.
- **Pensiynau Anafiadau -** Dyma'r unig elfen o Bensiynau'r Heddlu sy'n parhau yn y Gyllideb Refeniw. Mae'r cynyddiadau'n seiliedig ar ffigurau chwyddiant Medi 2023, sydd wedi arwain at gynnydd cyffredinol o 7%.
- **Yswiriant** - Mae costau yswiriant yr Heddlu wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf, yn rhannol oherwydd nifer cyfyngedig o gwmnïau sydd ar gael yn y farchnad ac yn rhannol oherwydd costau setliadau. Mae'r cynnydd chwyddiannol o 7% wedi'i gynnwys. Fodd bynnag, arweiniodd trafodaethau contract at arbedion cyffredinol.
- **Ynni -** Mae prisiau ynni, nwy a thrydan wedi bod yn gyfnewidiol iawn dros y ddwy flynedd ddiwethaf. Mae Heddlu Gogledd Cymru wedi symud i gontract prisio amrywiol lle y gellir prynu nwy a thrydan fesul chwarter; yn y tymor canolig bydd hyn yn galluogi prynu nwy a thrydan am brisiau is. Roedd cyllideb 2023-24 yn cynnwys £1.3 miliwn i'w ariannu gan gronfeydd wrth gefn, mae hwn wedi cael ei waredu ac mae'r gyllideb sylfaenol wedi cael ei gosod ar £2.7 miliwn yn seiliedig ar amcangyfrifon gan yr ymgynghorwyr Ynni. Mae costau ynni'n parhau i fod yn gyfnewidiol a rheolir y risg drwy'r strategaeth brynu a'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd.
- **Costau ystâd -** Chwyddiant cyffredinol o 4%
- **Tanwydd -** fel y prisiau ynni, mae prisiau tanwydd wedi bod yn newidiol, a hynny ers sawl blwyddyn bellach. Fodd bynnag, yn yr un modd â chostau ynni, mae cynyddiadau tanwydd yn is na'r disgwyl yn CATC 2023. Mae cronfa wrth gefn tanwydd eisoes ar gael ac os yw'r prisiau tanwydd uchel yn parhau, bydd y gronfa wrth gefn yn cael ei defnyddio ar eu cyfer.
- **Fflyd -** adolygwyd costau eraill y fflyd ar gyfer chwyddiant ychwanegol a ddisgwylir.
- **TGCh -** Fel arfer mae gan feddalwedd TG a chontractau cynnal a chadw gynnydd blynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant; Mae chwyddiant yn oddeutu 7%, ond ceir rhywfaint o arbedion cyffredinol drwy'r contract caffael newydd.
- **Arall -** mae hyn yn ymwneud â chontractau eraill sydd â chynnydd blynyddol sy'n gysylltiedig â chwyddiant, fel Pensiynau Swyddogion, darpariaethau meddygol amrywiol, cydweithrediadau amrywiol, a chontractau llai eraill.


## 8.9 Arbedion, Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd

Mae gan Heddlu Gogledd Cymru gofnod rhagorol o nodi a darparu arbedion, gyda dros £6.1 miliwn o'r rhain wedi'u darparu dros y 2 blynedd diwethaf drwy'r broses gynllunio. Ond, mae arbedion effeithlonrwydd a nodir gan feysydd gwasanaeth wedi bod yn anoddach eu canfod dros amser. Oherwydd yr amgylchiadau presennol nodwyd arbedion a chyfleoedd lefel corfforaethol eraill, gyda'r fantolen gref yn galluogi rhai o'r arbedion ychwanegol hyn. Gweler crynodeb o'r manylion pellach yn y tabl a'r graff isod:

| Categori | £ |
|---|---|
| Arbedion maes gwasanaeth | -780,516 |
| Cyfleusterau gan gynnwys Ynni | -653,559 |
| Contract Yswiriant | -286,125 |
| Incwm Buddsoddi | -480,669 |
| Arbedion Gweithredol Eraill | -970,969 |
| | **-3,171,837** |




- **Arbedion Maes Gwasanaeth -** Gofynnwyd i Feysydd Gwasanaeth ystyried cyfanswm o £0.960 miliwn, sef cyfanswm y cynigion a gyflwynwyd. Yn dilyn craffu pellach, y cyfanswm terfynol oedd 0.761 miliwn. Roedd y rhain yn gyfuniad o staff, unigolion nad ydynt yn staff ac incwm ychwanegol. Aseswyd effaith yr arbedion hyn, eu hymarferoldeb a ph'un a oeddent yn gwrthdaro â'r blaenoriaethau. Mae'r rhain wedi'u crynhoi isod:




**Arbedion Gweithredol a Chorfforaethol:**

- **Cyfleusterau gan gynnwys Ynni) -** Aseswyd costau ynni fel rhan o CATC 2023 a rhagwelwyd cynyddiadau sylweddol yn 2023-24 a 2025-26. Mae'r marchnadoedd ynni wedi setlo ers y llynedd, ac mae buddion y strategaeth brynu newydd yn amlwg. Yn seiliedig ar y rhagolygon ar ddechrau'r flwyddyn, rhagwelir y gellir cymryd £0.596 miliwn o'r gyllideb ynni yn 2025-26. Lliniarir y risg o gynyddiadau pellach gan gronfeydd wrth gefn. Roedd balans yr arbediad yn sgil yr incwm cynyddol.

| | | Cyllideb Sylfaenol | Rhagamcan Ebrill 23 | Amrywiant |
|---|---|---|---|---|
| BA24-25 | Trydan | £2,513,466 | £2,117,150 | -£396,316 |
| | Nwy | £762,098 | £562,122 | -£199,976 |
| | Cyfanswm | **£3,275,564** | **£2,679,272** | **-£596,292** |
| BA25-26 | Trydan | £2,685,790 | £1,999,383 | -£686,407 |
| | Nwy | £715,041 | £505,058 | -£209,983 |
| | **Cyfanswm** | **£3,400,831** | **£2,504,441** | **-£896,390** |

- **Contract Yswiriant -** Disgwyliwyd i'r contract yswiriant gynyddu o 25% fel rhan o CATC 2023. Mae gwaith yr Adran Gaffael wedi arwain at newid cyflenwr a lleihau'r costau. Mae'r arbediad yn ystyried chwyddiant disgwyliedig o oddeutu 15% ar ddechrau 2024-25. Yr arbediad ar gyfer 2024-25 oedd £0.286 miliwn.

- **Incwm Buddsoddi -** Mae cyfraddau llog wedi cynyddu dros y 12 mis diwethaf; fodd bynnag, disgwylir iddynt ostwng dros y ddwy flynedd nesaf. Mae amcanestyniadau wedi cael eu gwneud yn seiliedig ar ragolygon llif arian ac amcanestyniadau cyfraddau llog a ddarparwyd gan ymgynghorwyr Rheoli'r Trysorlys. Mae'r swm i'w chynnwys yn y gyllideb yn barhaol yn seiliedig ar barodrwydd i dderbyn risg, gallai dull rhy ffyrnig arwain at angen am doriadau yn y dyfodol, ond gallai dull rhy ofalus arwain at doriadau mewn meysydd eraill yn y flwyddyn ariannol bresennol. Dull ffurfiol y Strategaeth Ariannol yw bod yn ofalus, ac mae'r strategaeth rheoli trysorlys yn wrthwynebus i risg

wrth wneud unrhyw benderfyniadau buddsoddi. Mae'n rhaid i'r incwm buddsoddiad yn y gyllideb fod yn gynaliadwy. Mae cynnydd o £0.481 miliwn wedi cael ei gynnwys yn y gyllideb refeniw'n barhaol, sy'n golygu, dros y ddwy flynedd nesaf, y bydd swm untro o £1.5 miliwn a £1 miliwn hefyd yn cael ei ddyrannu i gyllid Cyfalaf o'r incwm llog ychwanegol.

- **Arbedion gweithredol eraill -** mae hyn yn cynnwys swm sydd wedi'i gynnwys fel rhan o CATC 2023 o £0.454 miliwn o'r contract caffael TG a £0.157 miliwn o arbedion eraill. Arbedion ychwanegol o £0.159 miliwn o'r gyllideb TG, gostyngiad NPAS o £0.077 miliwn gyda balans o £0.123 miliwn drwy arbedion llai ym maes Fflyd, Y Gyfraith, Hyfforddiant ac AD.

Mae cyfanswm arbedion o £3.753miliwn yn swm sylweddol, cyfwerth â gostyngiad o £10.43 ym Mand D Treth y Cyngor. Mae rhai o'r arbedion yn cynyddu'r risg o fewn y gyllideb flynyddol ond mae ein mantolen gref yn galluogi lliniaru'r risg.

**Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd**

Mae gan yr heddlu fforwm Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd sy'n ceisio nodi'r cyfleoedd ar gyfer Cynhyrchiant ac Effeithlonrwydd o amrywiol fentrau Newid Corfforaethol a gynhelir o fewn yr heddlu ac yn dilyn adolygiad PEEL Chwefror 2023 a'r radd Digonol o ran defnydd o adnoddau sy'n faes mae'r Heddlu wedi ymdrechu i'w gryfhau.

Mae enghreifftiau o'r meysydd effeithlonrwydd a chynhyrchiant a ystyriwyd wrth lunio'r cynlluniau ariannol wedi eu hamlinellu isod:

- Dadansoddiad meincnodi manwl yn ystyried tablau gwerth am arian HMICFRS gan ystyried sefyllfa HGC o'i gymharu â Heddluoedd tebyg.
- Dadansoddiad o arolygiadau PEEL HMICFRS yn ymwneud â'r Defnydd o Adnoddau gan ganolbwyntio ar arferion da a nodwyd gan Heddluoedd sydd wedi derbyn sgôr "Rhagorol" ac ystyried canfyddiadau PEEL.
- Defnyddio Data a Dadansoddiad AFEP III CIPFA sy'n darparu adnodd meincnodi ariannol pellach ar gyfer yr Heddlu.

Ystyried trosoli mantolen yr Heddlu drwy ystyried y Mynegai Gwytnwch Ariannol ac ymarferion Meincnodi Cenedlaethol eraill.

- Arwain ar ddatblygiad methodoleg Gwireddu Buddion Cymru Gyfan gyda'r bwriad o'i ddefnyddio gyda Rhaglenni Cymru gyfan yn ogystal â fel prosiectau a rhaglenni gwaith lleol.

Ymgysylltu ag Adolygiad Cynhyrchiant yr Heddlu Cenedlaethol, ac ystyried ei ganfyddiadau a'i argymhellion fel rhan o'r adolygiad Optimeiddio sy'n mynd rhagddo o fewn yr Heddlu.

Parhau i archwilio rhesymoli ystâd posibl ble mae'r strategaeth yn caniatáu heb gyfaddawdu darpariaeth gwasanaeth.


- Parhau i drosoli buddsoddiad technoleg sy'n gysylltiedig â rhaglen drawsnewid ddigidol yr Heddlu gan gynnwys effaith bosibl ap symudol a warws data'r Heddlu wrth iddynt aeddfedu.

Parhau i ddatblygu rhaglen reoli perfformiad yr heddlu wrth i ni geisio sicrhau fod gan ein pobl y wybodaeth sydd ei hangen arnynt i weithio mor effeithiol â phosibl.

- Parhau i ddatblygu'r rhaglen gynaliadwyedd a datgarboneiddio.
- Parhau i ddilyn modelau darparu cost-effeithiol drwy gydweithio, yn arbennig yn trosoli'r trefniadau rhanbarthol ar draws Cymru a gyda'r Gogledd Orllewin yn benodol.
- Gyrru arbedion masnachol ble bo'n bosibl drwy naill ai weithgaredd lleol neu gydweithredol. Mae'r heddlu wedi datblygu strategaeth gyfalaf i fuddsoddi mewn meysydd sy'n annog Cynhyrchiant a Gwerth am Arian ond gwneir hyn yng nghyd-destun dileu'r arian cyfalaf o'r setliad plismona.

Ceir adroddiadau rheolaidd ar y meysydd uchod drwy fforymau Llywodraethu'r Heddlu gan gynnwys adroddiadau i'r Cydbwyllgor Archwilio sy'n darparu craffu annibynnol pellach. Gweler crynodeb o rai o'r ysgogwyr Cynhyrchiant a ystyriwyd fel rhan o'r broses gynllunio yn y diagramau isod:

## Financial Context – Productivity - Optimisation



## Financial Context – Productivity – Fit for the Future

| Digital Transformation | Thematic Reviews | Other Key Strands |
|---|---|---|
| Mobile App | Fleet – Vehicle Allocation & Electric Vehicles | Technology TOM<br>Transition to BAU |
| MI Data Warehouse | Estates – Full Capital Programme | FHQ / Estate Rationalisation |
| Digital Interview Recorders | Training TOM | ICT Asset Replacement Programme |
| NEP Phase 2 | Recruitment TOM | Fleet Replacement & Availability |
| Artificial Intelligence<br>Robotic Process Automation | Sustainability | Enabling BAU Services incl. Process & Policy |

**8.10 Twf**

Mae Twf a Buddsoddiad i fodloni galw newidiol a newydd wedi bod yn weddol gymhleth eleni. Gellir rhannu'r rhain yn bedwar categori fel isod, yn ogystal â'r manylion:

- **Swyddogion Heddlu** - gwneud y mwyaf o'r swyddogion sydd ar gael, yn bennaf drwy Optimeiddio, cyfyngu ar arbedion oherwydd gofynion Uplift, a thwf o ganlyniad recriwtio i'r eithaf. Dim cost ychwanegol.
- **Twf Strwythurol** - Eitemau wedi'u nodi lle nad oes unrhyw opsiynau ymarferol eraill. £0.927m
- Nodi twf drwy'r **broses gynllunio**. £1.239 miliwn
- **Galw wedi'i ddadleoli** – mae £0.776m wedi'i gynnwys yn y ffigur hwn yn benodol i ariannu **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu** a **Swyddogion Cyswllt Ysgolion.**

8.11 **Dyrannu Swyddogion Heddlu** - Mae'r cynnydd yn niferoedd swyddogion o 206 Uplift a'r 30 a ariannwyd o'r Praesept cyn Uplift wedi arwain at sefydlu 1696 o swyddogion cyfwerth â llawn amser. Dyma felly nifer y swyddi yn y gyllideb y mae'n rhaid cynnwys y swyddogion ar Brawf yn eu blwyddyn gyntaf nad oes modd eu hadleoli.

- Mae cynnydd sylweddol wedi bod mewn cyfraddau **gadael** yn ystod y 2 flynedd ddiwethaf, oherwydd cynnydd mewn ymddiswyddiadau swyddogion gwasanaeth byr. Mae wedi cynyddu o 1-2 bob mis i 3-4 bob mis.
- Mae hyn wedi arwain at yr angen i barhau gyda lefel uchel o **recriwtio** (4 o 33 y flwyddyn, yn hytrach na 4 o 18).
- Bellach mae 99 o recriwtiaid na ellir eu hadleoli yn cael eu hyfforddi ar unrhyw adeg benodol, 45 yn fwy na'r 54 a fwriadwyd yn flaenorol, a bydd hyn yn wir am o leiaf 2 flynedd.

- Does dim capasiti i gynyddu nifer y recriwtiaid.
- Felly, nifer y swyddi gweithredol sydd ar gael yw 1597.

8.12 Roedd y **Rhaglen Optimeiddio** wedi gwneud cryn dipyn o waith i optimeiddio rolau swyddogion, ac roedd hefyd wedi nodi lle y byddai'n fwy effeithlon gwneud pethau'n wahanol a lle'r oedd angen peth twf. Nodwyd peth twf pellach yn ystod y broses gynllunio. Cwblhawyd ymarfer hefyd gan feysydd gwasanaeth i nodi swyddi y gellid eu hail-ddyrannu, a thrwy hynny, nodwyd 26 swydd yn ogystal â'r 12 swydd a oedd ar gael drwy'r ymgyrch Uplift (sy'n gyfystyr ag arbediad o £1.430 miliwn). Arweiniodd hynny at 38 swydd newydd fel y gwelir isod:

## Officer Growth

**Delivering safer neighbourhoods**

- Sgt Patrol x 2
- Professional Development Unit x 10

**Supporting victims and communities**

- DS MOSOVO x 1
- DS CRU x 1
- Diversity Officer x 1

**Fair and effective Criminal Justice System**

- Sgt Audit and Inspection Team x 1
- Driving Instructor x 2
- PSD DC Investigator x 2
- PSD DC ACU x1
- PSD DI x 1
- Domestic Abuse Case Team x 16

8.13 **Twf Strwythurol -** Costau sydd naill ai wedi cael eu nodi fel rhan o fusnes arferol neu drwy'r broses gynllunio lle nad oes unrhyw opsiwn ymarferol arall yw'r rhain. Yn wreiddiol, amcangyfrifwyd bod y costau a oedd ynghlwm â'r opsiynau'n £1.6 miliwn, ond gostyngwyd y ffigwr hwn i £0.927 miliwn drwy nodi ffrydiau cyllid eraill, gwaith lliniaru drwy'r fantolen, neu leihau'r costau. Dengys y manylion isod:

| Disgrifiad | Cyllid Cytunedig | Sylwadau |
|---|---|---|
| **Clwb Pêl-droed Wrecsam - Therapi Galwedigaethol - Uned Gymorth yr Heddlu a Thimoedd Plismona Cymdogaeth** | £150,000 | Costau goramser uwch |
| **Uned Iechyd Galwedigaethol Meddygol** | £150,000 | Costau mewn perthynas â chynnal cyfraddau recriwtio uchel |
| **SARC - gwasanaethau plant a phobl ifanc** | £140,000 | Hysbysiad contract i Fwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr |
| **Datrysiadau'r Ystafell Reoli - Cytunwyd Ebrill 24** | £112,470 | Gofynion storio data |
| **Cydweithio Cenedlaethol/Rhanbarthol** | £67,824 | Cynnydd mewn rhai presennol ynghyd â rhai newydd |
| **Cydweithrediad Plismona Arfog GC** | £62,766 | O ganlyniad i'r GMP yn tynnu'n ôl |
| **Cynnydd ym Mhrisiau Contractau Eraill** | £49,356 | Cynnydd ym Mhrisiau Contractau Amrywiol Eraill |

| | | |
|---|---|---|
| **Costau Ffonau Symudol** | £44,613 | Cynyddu gofynion data |
| **Lletya Cŵn** | £40,069 | Cynnydd yn y galw |
| **Costau Azure TGCh** | £40,000 | Mewn cysylltiad â gofynion storio data |
| **Costau Blwyddyn 3 Trwyddedau Microsoft** | £38,491 | Contract |
| **Ymgynghorydd Trefn Gyhoeddus a Diogelwch y Cyhoedd Ar Alw** | £16,900 | Cynnydd goramser |
| **Galwad Allan Technoleg HGC** | £15,000 | Galwad Allan Technoleg HGC |
| | **£927,489** | |

8.14 **Twf o'r cylch cynllunio -** Fel yr amlinellir yn adran 2, dilynwyd proses drylwyr fel rhan o'r broses gynllunio gan graffu'r cais twf yn erbyn Datganiad Rheoli'r Heddlu, data sydd ar gael a'u paru â blaenoriaethau. Craffwyd ar hyn ymhellach drwy adolygiadau cymheiriaid cyn ei gyflwyno i Brif Swyddogion. Cyfanswm y ceisiadau refeniw gwreiddiol oedd £2 filiwn (staff) a £0.760 miliwn (nid staff). Parwyd hyn â'r adnoddau a oedd ar gael cyn y cyhoeddiadau cyllid ar 14 Rhagfyr. Cyfanswm y cytundeb terfynol oedd £0.873 miliwn (staff) a £0.283 miliwn (nid staff). Ceir crynodeb o'r rhain dan y categorïau blaenoriaeth isod:




**Twf OPCC -** nododd y broses £0.083 miliwn o dwf yng nghyllidebau OPCC. Mae hyn yn adlewyrchu cynnydd a'r cyfraniadau newydd i bartneriaid cenedlaethol a rhanbarthol yn y meysydd cymorth dioddefwyr damweiniau ffordd, Trais yn Erbyn Menywod a Genethod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol; Bwrdd Gwrth-hiliaeth Rhanbarthol, Diogelwch Cymunedol a chyrff eraill.

8.15 **Galw dadleoledig**

Un o nodweddion y rownd cynllunio eleni oedd partneriaid yn tynnu'n ôl yn rhannol neu'n llwyr o drefniadau cyllid yn sgil toriadau yng nghyllidebau'r sector cyhoeddus, yn ogystal â chynnydd yn y galw cyffredinol. Mae hyn yn cynnwys cyllid yn cael ei dynnu'n ôl gan bob ardal leol o'r sector cyhoeddus gan gynnwys Swyddfa'r Crwner, Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariannir gan ALl, cyllid SARC gan y Bwrdd Iechyd, a chytundebau cydweithio gyda chyrff plismona yn ogystal â galw cynyddol megis ar gyfer plismona gemau pêl-droed. Adlewyrchir y rhain o fewn y twf uchod. Bu'n rhaid ystyried dau faes yn benodol yn hwyr yn y rownd cynllunio, sef gostwng cyllid Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a thynnu cyllid Swyddogion Cyswllt Ysgolion yn ôl yn llwyr.

8.16 **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu -** trafodwyd nifer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a ariannir gan Lywodraeth Cymru drwy'r flwyddyn. Roedd CATC 2023 yn cynnwys targed o 222 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu gyda 121 o'r rhain yn cael eu hariannu drwy Lywodraeth Cymru, er rhagwelwyd y byddai'r nifer gwirioneddol rhwng 175 a 200 yn seiliedig ar ddau recriwtiad y flwyddyn (caiff nifer o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu eu recriwtio fel Swyddogion yr Heddlu bob blwyddyn, sy'n golygu bod y trosiant yn uchel). Yn ystod y flwyddyn, awgrymwyd y dylid tybio 81 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y broses gynllunio. Yn seiliedig ar waith blaenorol ac adolygiad fel rhan o'r broses gynllunio, aseswyd bod angen 104 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu. Rhoddwyd cynllun ar waith i gynyddu praeseptau i ariannu 5 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac i gefnogi hyn gan ddefnyddio'r gronfa wrth gefn a glustnodwyd yn ôl yr angen. Fel rhan o'r cyhoeddiadau cyllid ym mis Rhagfyr, fe ddaeth i'r amlwg fod ffigwr Llywodraeth Cymru'n fwy tebygol o fod yn 61, adolygwyd y cynllun cyllid ymhellach, gyda 5 Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n cael eu hariannu drwy'r praeseptau. Mae'r ffigurau wedi'u crynhoi isod:

| | 2023 CATC | 2024 Modelu | 2024 Terfynol |
|---|---|---|---|
| Wedi'i ariannu'n wreiddiol gan LlC | 101 | 81 | 61 |
| Arian ychwanegol gan LlC | 20 | 0 | 0 |
| Cyngor Bwrdeistref Wrecsam | 4 | 0 | 0 |
| Cyllideb sylfaenol HGC | 86 | 91 | 91 |
| Twf 2024-25 | 0 | 5 | 10 |
| Cronfeydd wrth gefn a grantiau eraill | 11 | 17 | 32 |
| Cyfanswm | 222 | 194 | 194 |

Mae'r cyllid yn seiliedig ar y rhagdybiaeth y bydd Llywodraeth Cymru'n cytuno i 61 (i'w gadarnhau). Y rhagdybiaeth wreiddiol oedd y bydd Heddlu Gogledd Cymru'n ariannu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o'r gyllideb sylfaenol; fodd bynnag, yn 2022/23, cytunodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i ariannu 10 Swyddog Cymorth

Cymunedol yr Heddlu ychwanegol, gan ddod â'r safle cychwynnol ar gyfer 2024/25 i 91 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn y gyllideb sylfaenol. Mae ychwanegu 10 pellach i'r gyllideb sylfaenol yn 2024/25 yn gadael 32 i'w hariannu drwy ddulliau eraill. Bydd nifer tebygol Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn 2024/25 yn oddeutu 180-190, felly mae'n annhebygol y bydd angen cyllid ar gyfer bob Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu yn ystod y flwyddyn ariannol hon. Bydd modd dod o hyd i gyllid ychwanegol o'r gronfa wrth gefn (£1.3 miliwn ar gael) neu grantiau newydd posibl. Bydd yn rhaid ystyried trefniadau ariannu mwy cynaliadwy yn ystod y rownd cynllunio nesaf.


Mae cyfanswm y 10 Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu ychwanegol a ariannwyd drwy braeseptau yn £0.388 miliwn ac yn gynnydd blynyddol o £1.28 ar Dreth y Cyngor.

8.17 **Swyddogion Cyswllt Ysgolion** - Mae Rhaglen Gyswllt Ysgolion Cymru Gyfan wedi bod yn weithredol ers 2004-05. Mae gan y Rhaglen 16 o Swyddogion Cyswllt Ysgolion yr Heddlu ac 1 Cydlynydd Staff yr Heddlu ar hyn o bryd, ac mae Llywodraeth Cymru'n darparu gwerth £0.388 miliwn o gyllid, a ddisgwyliwyd i barhau yn 2024-25. Mae hyn yn gyfystyr â 6 Swyddog Cyswllt Ysgolion yr Heddlu gyda'r swyddogion a'r staff sy'n weddill yn cael eu hariannu yn y gyllideb sylfaenol. Fel rhan o'r cyhoeddiadau ariannol ym mis Rhagfyr, tynnwyd y gyllideb sy'n ariannu'r Rhaglen yn ôl gan Lywodraeth Cymru. Yn dilyn trafodaethau rhwng CHTh a CC, cytunwyd bod cefnogaeth leol i'r Rhaglen ac y byddai'r £0.388 miliwn yn cael ei hariannu o'r gyllideb sylfaenol. Mae hyn yn cynrychioli cynnydd ychwanegol o £1.28 pellach ar Dreth y Cyngor. Yn sgil y cyfyngiadau Uplift, byddai'n rhaid ariannu'r Swyddog beth bynnag, yn y rolau hyn neu rolau eraill, oni bai bod y Swyddfa Gartref yn cytuno i ostwng y targed Uplift.

8.11 Mae'r cynllun sydd wedi'i grynhoi uchod yn gosod sylfaen newydd ar gyfer y blynyddoedd sydd i ddod: penodi'r holl swyddogion ychwanegol drwy ymgyrch Uplift, cefnogaeth ar gyfer y swyddogion ychwanegol, a buddsoddi mewn offer a'r rhaglen cyfalaf. Daeth heriau ychwanegol i'r amlwg yn hwyrach yn y rownd, fodd bynnag, roedd rhai o'r cyhoeddiadau'n ddefnyddiol (er enghraifft, roedd cyllid y Swyddfa Gartref ychydig yn well na'r disgwyl). Nodwyd £3.171 miliwn o arbedion, a oedd £1.448 miliwn yn uwch na'r targed gwreiddiol a osodwyd, sef £1.723 miliwn, ac sy'n gyfystyr ag 1.7% o gyllideb 2023-24. Cafodd swyddi Swyddogion yr Heddlu eu hail-flaenoriaethu yn yr Adolygiad Optimeiddio a'r Broses Gynllunio gan sicrhau arbediad pellach na ellid ei droi'n arian parod o £1.4 miliwn. Mae hyn wedi galluogi i adnoddau gael eu blaenoriaethu a diogelu Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a Swyddogion Cyswllt Ysgolion gyda chefnogaeth y CHTh, yn ogystal â gosod cyllideb fantoledig a chynaliadwy.

8.19 Mae'r cynnydd sydd ei angen yng nghyllideb sylfaenol 2024-25 yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a nodir uchod. Mae'r rhain yn rhesymol, yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ac yn unol â thybiaethau Plismona cenedlaethol. Ond, fel y gwelwyd yn ystod 2023-24 mae lefel yr ansicrwydd yn parhau'n uchel, yn arbennig o ystyried bod 2024 yn flwyddyn etholiad.

8.20 Bydd y cynnig cyllideb yn arwain at gynnydd o £16.56 neu 32 yr wythnos ar Dreth y Cyngor Band D sef £349.65 sy'n cynrychioli cynnydd o 4.97% ac yn arwain at braesept cyffredinol o £106.269 miliwn. Cynnydd o £15 oedd y rhagdybiaeth cynllunio o CATC 2023, gellid bod wedi gosod Treth y Cyngor ar £14 ar gyfer cynnydd Band D, ond i ddiogelu niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a swyddi Swyddogion Cyswllt Ysgolion, roedd angen cynnydd ychwanegol o £2.56. Gweler effaith y cynyddiadau a'r gostyngiadau i Dreth y Cyngor yn y siart isod.




8.21 Yn seiliedig ar y rhagdybiaethau a amlinellir yn 6.2 gyda chynnydd o £13 yn Nhreth y Cyngor, cynnydd o 1% mewn grantiau a 2.5% mewn cyflogau, rhagwelir bwlch o £7.591 miliwn dros gyfnod y CATC. Mae hyn yn cyfateb i lai na 1% y flwyddyn. Bydd cynnydd yn 2026-27 gan y bydd y gronfa wrth gefn ar gyfer Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu wedi cael eu defnyddio cyn belled ag y bo modd. Mae'r ffigurau hyn yn seiliedig ar y disgwyliadau arferol y bydd gwelliannau parhaus yn darparu arbedion effeithiolrwydd.

| | 2024-25 | 2025-26 | 2026-27 | 2027-28 | 2028-29 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Bwlch Cyllideb Cronnus** | **0** | **1,272** | **3,967** | **5,796** | **7,591** |
| **Fel % o'r Gyllideb Net** | **0** | **0.62%** | **1.88%** | **2.68%** | **3.43%** |
| **Arbedion i'w canfod yn ystod y flwyddyn** | 0 | 1,272 | 2,695 | 1,829 | 1,795 |
| **Fel % o'r Gyllideb Net** | **0** | **0.62%** | **1.28%** | **0.85%** | **0.81%** |

## 9. Risgiau

9.1 Nid yw **cyllid** ar gyfer 2025-26 ymlaen wedi'i gyhoeddi ar lefel Heddluoedd eto ac efallai na fydd yn ddigon i ariannu'r Cynllun, yn dibynnu ar agweddau amrywiol eraill. Mae rhagdybiaeth o 1% wedi'i wneud, ond mae'n debygol y bydd adolygiad gwariant yn cael ei gynnal yn dilyn etholiad cyffredinol yn 2024.

9.2 Un o'r risgiau mwyaf dros y blynyddoedd nesaf yw'r **fformiwla ariannu** oherwydd sensitifrwydd y fformiwla newydd a diffyg gwybodaeth amdani ar hyn o bryd. Roedd y ffigurau a ddarparwyd gan y Swyddfa Gartref yn ystod adolygiad 2015-16 yn dangos bod dyraniad Gogledd Cymru yn cynyddu o 1.03% i 1.06% o'r cyfanswm. Roedd hyn gyfwerth â £2 filiwn o gyllid ychwanegol; roedd amcangyfrifon a ddarparwyd yn ddiweddarach gan Ddyfnaint a Chernyw yn dangos bod dyraniad Gogledd Cymru yn lleihau £14.5 miliwn, gan ddangos sensitifrwydd newidiadau o'r fath. Ar hyn o bryd, tua £23.8 miliwn yw'r cyllid gwaelodol, sy'n dangos faint y gallai'r grant newid o ganlyniad i newidiadau i'r fformiwla. Mae'r Swyddfa Gartref wedi sefydlu gweithgorau i edrych ar opsiynau, ond nid oes unrhyw amserlenni cyflwyno penodol na ffigyrau wedi'u darparu hyd yma.

9.3 Mae'r gyllideb yn mynd i'r afael â risgiau cenedlaethol a lleol **newydd a rhai'n dod i'r amlwg**, y mae angen adnoddau ar eu cyfer, fel Llinellau Sirol, Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant a Seiberdroseddu. Fodd bynnag, mae risgiau newydd yn datblygu'n barhaus ac mae'r cynnydd o ran nifer a chymhlethdod troseddau yn risg.

9.4 Mae **datblygiadau cenedlaethol** megis Ymgyrch Uplift a nodwyd mewn adrannau cynharach yn creu risgiau ariannol a gweithredol, yn arbennig os ydynt yn cael eu hariannu drwy grantiau penodol gydag amodau llym yn gysylltiedig â hwy. Mae cost ychwanegol darparu'r TG ddiweddaraf, p'un a yw'r rhain yn systemau gorfodol ledled y DU ai peidio, a newid y model prynu o brynu cyfalaf i danysgrifio blynyddol, yn risg ychwanegol.

9.5 **Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu -** Yn hanesyddol, mae Gogledd Cymru wedi ariannu 101 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu, ac wedi ymrwymo i 20 pellach. Mae'r ffigurau terfynol eto i'w cadarnhau, ond yn seiliedig ar y tybiaethau diweddaraf, bydd hyd at 32 o Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu'n cael eu hariannu gan gronfeydd wrth gefn a grantiau newydd eraill. Bydd hyn yn gynaliadwy am 2 flynedd, yn dilyn hynny, byddai angen nodi ffynonellau cyllid, arbedion neu ostyngiadau eraill.

9.6 **Nid yw arbedion a gynlluniwyd at 2024-25** wedi'u gwneud eto. Mae'r cynlluniau hyn yn aeddfed a disgwylir i'r arbedion hyn gael eu cyflawni. Mae cynlluniau y tu hwnt i 2024-25 yn cael eu datblygu. Bydd arbedion effeithlonrwydd ariannol yn anoddach i'w gwneud gyda gofynion Ymgyrch Uplift, sy'n golygu bod rhaid cynnal niferoedd swyddogion.

9.7 Mae'r cyllidebau a amcangyfrifir sydd wedi'u nodi yn seiliedig ar gytuno ar y rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer cynnydd yn **Nhreth y Cyngor.** Pe bai'n cael ei ostwng, byddai pob gostyngiad o 1% yn golygu toriad ychwanegol o £1.012 miliwn i gyllidebau, byddai gostyngiad o £1 yn arwain at doriad o £0.3miliwn yn y gyllideb.

9.8 Mae'r Swyddfa Gartref yn **brigdorri'r symiau** a ddyrannir i ardaloedd yr Heddlu er mwyn ariannu prosiectau penodol. Cynyddwyd brigdorri 70% dros gyfnod 2017-18 i 2022-23 i gyfanswm o £1,374m. Mae'r swm sydd wedi'i dorri allan wedi gostwng i £1.038 miliwn dros y ddwy flynedd diwethaf gyda'r gostyngiad o £0.336 miliwn yn cael ei ddyrannu'n uniongyrchol i'r Heddluoedd. Mae perygl y bydd y gostyngiadau hyn yn cael eu gwrthdroi, neu fod prosiectau eraill yn cael ei hariannu a'r dyraniad haen uchaf yn cael ei gynyddu eto, mae'r perygl hwn yn debygol o gynyddu yn dilyn etholiad cyffredinol.

7.9 Gallai **grantiau** gael eu cwtogi **yn y dyfodol** pe bai'r hinsawdd economaidd yn gwaethygu. Mae pob toriad 1% ychwanegol i'r Cyllid Grant Cyffredinol yn ostyngiad arian parod o £0.940m.

9.10 Gan fod 80% o'r gyllideb net yn cael ei wario ar **gyflogau a chostau cysylltiedig**, gall unrhyw gynnydd bach i gyflogau, cyfraniadau pensiwn neu gyfraniadau Yswiriant Gwladol, Ardoll Prentisiaethau, neu unrhyw wariant arall sy'n gysylltiedig â thâl, gael effaith anghymesur ar y gyllideb. Mae pob 1% o gynnydd i gyflogau'n golygu cynnydd o £1.740m yn ychwanegol o gostau mewn blwyddyn gyfan. Os na chaiff grantiau eu cynyddu yn unol â chostau chwyddiant, mae cost chwyddiant cyflogau naill ai'n disgyn ar dreth y cyngor neu mae'n rhaid ei hariannu gan doriadau. Mae'r risg na fydd chwyddiant yn cael ei gydnabod fel rhan o setliad y Llywodraeth yn sylweddol.

9.11 Disgwylir i gostau **cyfraniadau cyflogwr i bensiwn** swyddogion gynyddu yn 2024-25. Ariannwyd y rhain gan gynnydd yn y Grant Pensiwn. Gan fod y grant hwn yn un penodol, mae perygl nad yw'n destun chwyddiant, ac y bydd yn gostwng ar ryw bwynt. Mae perygl hefyd o gynyddiadau pellach yng nghyfraniadau pensiwn cyflogwyr Swyddogion yr Heddlu a Staff yr Heddlu yn y dyfodol.

9.12 Mae'r CATC yn adlewyrchu cost hanesyddol **Gwasanaethau Awyr Cenedlaethol yr Heddlu** (NPAS). Fodd bynnag, mae'r model gweithredol wedi cael ei adolygu ers peth amser ac mae'r sefyllfa yn parhau'n aneglur ac mae'r Heddlu sy'n cynnig llety wedi nodi nad ydynt yn dymuno cynnig llety i'r NPAS mwyach. Mae yna berygl o gostau cynyddol yn y CATC hwn.

9.13 Mae **chwyddiant** oedd wedi bod yn isel ers nifer o flynyddoedd wedi gweld cynnydd yn ystod 2022 a 2023, yn risg mawr i'r gyllideb fel y gwelwyd yn y cynllunio ar gyfer 2023-24 a 2024-25. Mae hyn hefyd yn wir ar gyfer prosiectau cyfalaf, gyda phrosiectau Ystadau yn gweld cynnydd sylweddol sy'n arwain at brosiectau yn gorfod cael eu hailwerthuso ac arian ychwanegol yn cael ei nodi os byddant am barhau. Os bydd chwyddiant ar wariant yn uwch na'r cynnydd mewn grantiau a praeseptau, bydd hyn yn arwain at doriadau angenrheidiol.

9.14 Mae'n mynd yn anodd llenwi **rhai swyddi arbenigol**. Gallai hyn arwain at orfod talu costau cyflogau uwch, yn ogystal â chostau uwch heb fod yn gysylltiedig â staff mewn meysydd fel Technoleg Gwybodaeth ac Ystadau wrth i'n cyflenwyr wynebu'r un problemau galw a chyflenwad.

9.15 Mae nifer o swyddogaethau **gwyddonol a fforensig** bellach angen achrediad sy'n creu costau cynyddol yn sgil gweithredu'r newidiadau a chynnal y gwasanaethau achrededig.

9.16 Mae **Argyfwng yr Hinsawdd** a **Chynaliadwyedd** yn parhau i fod yn risg ariannol i'r Heddlu wrth iddo geisio bodloni ei rwymedigaethau Cynaliadwyedd i'r dyfodol.

9.17 Mae'r tabl isod yn amlygu **sensitifrwydd** y prif ragdybiaethau

| Prif newidynnau sensitifrwydd | £m |
|---|---|
| **Newid o 1% yn Nhreth y Cyngor** | 1.012 |
| **Newid o 1% yn y grant** | 0.940 |
| **Newid o 1% yn y cyflogau** | 1.740 |
| **Newid o 1% i Gyfraniadau Pensiwn fel Cyflogwr** | 1.247 |
| **Newid o 1% mewn chwyddiant cyffredinol** | 0.640 |

## 10. Cyfalaf

2.1 Mae angen buddsoddi'n barhaus yn asedau ac isadeiledd y CHTh er mwyn sicrhau amgylchedd gwaith effeithlon a modern. Mae'n rhaid i'r Rhaglen Gyfalaf gyfan fod yn fforddiadwy, darparu gwerth am arian, yn ymarferol, ac adlewyrchu strategaeth gyffredinol isadeiledd sy'n addas i'r dyfodol. Mae'r Rhaglen Gyfalaf yn adlewyrchu gweithrediad Strategaethau Ystadau, TG a Fflyd. Fel rhan o'r broses gynllunio ar gyfer 2024-25, mae gofynion newydd wedi cael eu hamlygu, mae'r rhaglen gyfredol wedi cael ei hadolygu gan amlygu rhywfaint o lithriant yn 2024-25 ac mae'r Rhaglen i'r dyfodol wedi cael ei hadolygu gan ystyried y gofynion newydd a'r llithriant. Aseswyd fforddiadwyedd cyffredinol, a daethpwyd i'r casgliad fod y Rhaglen yn fforddiadwy o fewn yr adnoddau a ddyrannir i fuddsoddiad cyfalaf ar hyn o bryd. Mae crynodeb o'r Rhaglen a'r cyllid i'w weld isod gyda manylion yn Atodiad C.

| **Disgrifiad** | **2023-24 Seddi Diwygiedig Amcan C2** | **2023-24 Seddi Diwygiedig Amcan C3** | **2024-25 Amcan** | **2025-26 Amcan** | **2026-27 Amcan** | **2027-28 Amcan** | **2028-29 Amcan** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| **Cyfanswm Gwaith Adeiladu** | **2,209** | **2,209** | **8,588** | **5,787** | **4,530** | **2,480** | **2,180** |
| **Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill** | **2,467** | **2,467** | **3,071** | **1,797** | **1,341** | **1,883** | **1,580** |
| **Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | **4,960** | **2,980** | **5,635** | **1,736** | **1,699** | **1,520** | **6,450** |
| | | | | | | | |
| **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **9,636** | **7,656** | **17,294** | **9,320** | **7,570** | **5,883** | **10,210** |
| **Cyllid** | **2023-24** | **2023- 24** | **2024-25** | **2025-26** | **2026-27** | **2027-28** | **2028-29** |

| | Amcan C2 | Amcan C3 | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| Grant y Swyddfa Gartref | 620 | 620 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Refeniw | 3,327 | 3,447 | 4,507 | 3,447 | 2,786 | 2,480 | 2,710 |
| Cyfanswm y Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 2,791 | 1,791 | 2,615 | 1,180 | 304 | 304 | 2,350 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 304 | 304 | 2,700 | 0 | 304 | 0 | 0 |
| Benthyca ar gyfer Ystadau | 1,366 | 1,366 | 4,063 | 3,505 | 3,700 | 2,300 | 2,000 |
| Benthyca ar gyfer y rhaglen adnewyddu | 1,332 | 232 | 3,409 | 1,188 | 304 | 923 | 3,150 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **9,636** | **7656** | **17,294** | **9,320** | **7,570** | **5,883** | **10,210** |
| Ffynonellau allanol | 304 | 304 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnoddau eich hunain | 6,318 | 5,438 | 9,822 | 4,627 | 3,373 | 2,660 | 5,060 |
| Dyled | **2,698** | 1,598 | 7,472 | 4,693 | 3,954 | 3,223 | 5,150 |
| **CYFANSWM** | **9,636** | **7656** | **17,294** | **9,320** | **7,570** | **5,883** | **10,210** |

2.2 Bu nifer o faterion fel oedi yn y gadwyn gyflenwi, oedi mewn caniatâd cynllunio a chostau cynyddol oherwydd chwyddiant uwch sydd wedi oedi cynnydd a’i gwneud yn heriol i weithredu’r rhaglen gyfalaf. Amlinellir effaith y problemau hyn ac unrhyw brosiectau newydd isod gydag adolygiad manwl yn ystyried fforddiadwyedd, ymarferoldeb a gwerth am arian yn ystod y cylch cynllunio.

2.3 **Ystadau -** Adolygwyd y strategaeth Ystadau’n ffurfiol ddiwethaf yn y bwrdd Cyllid ac Adnoddau Strategol yn 2022. Er bod angen ail-ystyried y Strategaeth yn sgil y weledigaeth Parod at y Dyfodol, mae ffrydiau craidd y strategaeth o ystyried anghenion y cyhoedd; creu amgylcheddau gwaith effeithiol; bod yn hyblyg drwy ddefnyddio TG; sicrhau ystâd wedi’i symleiddio; cydweithio lle bo hynny’n fuddiol a bod yn ymwybodol o’r amgylchedd yn ein penderfyniadau wedi parhau i lywio’r gwaith a gwblhawyd yn 2023-24 a rhaglen y dyfodol.

2.4 Felly, nid oes unrhyw newidiadau sylweddol i Raglen Ystadau 2023-24. Mae’r prosiectau mwyaf, Ailwampio Caernarfon ac Ailwampio SARC, ar y trywydd iawn i gael eu cwblhau yn 2023-24. Y datblygiad mawr nesaf yw’r cyfleuster newydd yng Nghaergybi, mae’r Achos Busnes wedi cael ei gytuno, a’r cam nesaf yw dychwelyd y tendr cyn cytuno ar gontractau. Disgwylir i’r mwyafrif o’r gwaith yng Nghaergybi gael ei gwblhau yn 2024-25. Mae’r newidiadau i’r Rhaglen wedi’u crynhoi isod:

- Prestatyn - cynnwys ailwampio cyfleuster yng nghanol y dref ar £0.4 miliwn yn amodol ar ddylunio, costau a chynllunio.
- Abergele - yr amcangyfrif gwreiddiol o 2018 oedd £0.391 miliwn, mae costau cyfredol y cynllun yn £0.813 miliwn. Mae’r cynnydd wedi cael ei gynnwys yn

amodol ar gytuno'r Achos Busnes terfynol, mae'n datblygu drwy'r broses lywodraethu ar ôl cael ei gytuno yn y Bwrdd Ystadau.

- Cyfleusterau Lles Arfau Tanio - cytunwyd yn y rownd cynllunio i sicrhau fod y cyfleusterau lles priodol ar gael yn y Maes Tanio Gynnau (£0.275 miliwn). Yn amodol ar gytuno'r cynllun terfynol.
- Storfa'r Archifdy - Wedi'i osod ar £0.750 miliwn yn y Cynllun Cyfalaf gwreiddiol. Mae bellach yn rhan o'r datblygiad Ystâd cyffredinol. Byddai'r cynnig cyfredol yn cynnwys prynu eiddo yn 2024-25 a'i ailwampio yn 2025-26 gyda chost amcangyfrifedig o £1.5 miliwn yn 2024-25 ac £1 miliwn yn 2025-26. Mae hyn yn amodol ar gytuno ar Achos Busnes manwl.
- Mae'r datblygiad a gynigir yng Ngogledd a De Sir y Fflint wedi cael eu gohirio am flwyddyn i 2025-26 a 2026-27; ac mae prosiect Ailwampio Dolgellau hefyd wedi cael ei symud i 2026-27.

10.5 Defnyddiwyd y tanwariant yn 2023-24 a'r incwm llog ychwanegol yn 2024-25 (£1 miliwn) a 2025-26 (£0.5 miliwn) nad ydynt wedi cael eu hymrwymo i gefnogi'r gyllideb refeniw i ariannu'r symiau ychwanegol gan nad ydynt yn gynaliadwy ar y lefelau uchel presennol

10.6 **Fflyd -** Adolygwyd y strategaeth Fflyd hefyd yn y bwrdd Cyllid ac Adnoddau Strategol yn 2022 gyda'r nod o ddarparu fflyd cerbydau addas i'r diben, diogel, dibynadwy a chost effeithiol sy'n gallu cefnogi anghenion hyblygrwydd yr heddlu a'r trosglwyddiad i fodel fflyd carbon isel.

10.7 Nid oes unrhyw newidiadau wedi'u gwneud i adran gyfalaf Fflyd y rhaglen fel rhan o'r adolygiad hwn. Mae'r broses o newid y Fflyd presennol yn gwneud cynnydd da ac mae archebion wedi cael eu gwneud ar gyfer 2024-25. Bydd rhaglen y dyfodol yn gyfuniad o geir trydan, petrol a disel i'r dyfodol gan symud tuag at gyfran uwch o geir trydan dros amser. O fewn y llinell Cynaliadwyedd yn yr adran Ystâd, dyrennir £0.080 miliwn bob blwyddyn ar gyfer mannau gwefru cerbydau newydd. Mae gwaith yn mynd rhagddo i sicrhau fod y strategaeth Fflyd wedi'i alinio â ffrwd Parod at y Dyfodol o weledigaeth yr Heddlu.

10.8 **TG a Chyfathrebu -** Mae strategaeth Technoleg yr Heddlu'n cael ei adolygu ar hyn o bryd fel rhan o adolygiadau'r strategaeth Parod at y Dyfodol. Rhoddwyd y strwythur Model Gweithredu Targed Technoleg newydd a threfniadau contract ar waith ym mis Ebrill 2023 ac mae'r cyfnod pontio ar fin dod i ben. Mae'r trefniadau newydd wedi cynyddu gallu'r tîm technoleg, ond mae cefnogi bob digwyddiad newid ar lefel yr Heddlu, ar lefel Ranbarthol ac ar lefel Genedlaethol yn parhau i fod yn her i'r tîm. Adolygwyd Strategaeth Ddigidol yr Heddlu hefyd yn gynharach yn 2023 ac roedd angen sicrhau aliniad gyda'r strategaeth Parod at y Dyfodol. Gwnaethpwyd cynnydd

mewn sawl maes yn 2023-24, fodd bynnag, nid yw bob achos wedi bod yn ddwys o ran cyfalaf gan fod costau digidol a meddalwedd yn dilyn proffil gwariant refeniw dwys.

- Gweinyddwyr Uned Fforensig Ddigidol - Cynyddwyd y ffigwr hwn o £0.270 miliwn i £0.390 miliwn. Roedd y £0.270 miliwn yn seiliedig ar gostau disodli blaenorol. Mae'r ffigurau presennol wedi bod yn destun craffu gan yr Uned Fforensig Ddigidol a Thechnoleg ac yn cynrychioli gostyngiad sylweddol o'r ddau amcangyfrif blaenorol. Mae'n amodol ar gytuno'r papur cynllunio terfynol.
- Gorchymyn a Rheoli - disgwylir bellach i'r prosiect gael ei gwblhau yn 2024-25 ac mae £1 miliwn o'r gyllideb wedi cael ei ohirio tan 2024-25.
- Cyfarpar Fideo Newydd a Wisgir ar y Corff - mae angen datblygu'r Achos Busnes ar gyfer disodli'r cyfarpar hyn ymhellach, mae'r gwaith disodli ac uwchraddio llawn ar y gweill ar gyfer 2024-25. Yn y cyfamser, mae cynllun cynnal a chadw a chymorth estynedig ar gyfer y cyfarpar fideo a wisgir ar y corff y mae eu gwarant wedi dod i ben wedi cael ei gytuno (oddeutu hanner y cyfarpar).
- Disgwylir i'r Unedau Airwave gael eu disodli yn 2024-25.

10.9 Mae Gwariant Cyfalaf yn parhau i fod yn heriol, gyda mwy o amrywiant mewn costau (sy'n arwain at oedi er mwyn darparu trefniadau llywodraethu a chraffu priodol ar gyfer cynnydd a sicrhau gwerth am arian) yn ogystal ag amrywiant yn yr adnoddau mewnol ac allanol sydd ar gael i gyflawni'r prosiectau. Mae'r Rhaglen yn parhau i fod â gogwydd tuag at y blynyddoedd cynnar fel y gwelir isod a bydd y camau a'r gwaith cyflawni'n cael ei fonitro'n rheolaidd ar lefel prosiectau a'r rhaglen.

10.10 Mae cyllid wedi'i adolygu ac mae cyllid ychwanegol wedi'i gynnwys ar gyfer prosiectau newydd a'r cynnydd mewn costau. Mae'r Rhaglen yn fforddiadwy ar sail amcangyfrifon presennol a'r cyllid sydd ar gael. Bydd y cynllun manwl terfynol yn cael ei gymeradwyo'n ffurfiol gan y Comisiynydd fel rhan o'r Strategaeth Gyfalaf erbyn diwedd Mawrth 2024. Mae hyn yn ofyniad statudol ac mae'n cynnwys Strategaethau Rheoli'r Trysorlys a'r Cod Darbodus.

## 11. Cronfeydd wrth Gefn

11.1 Mae'n ddyletswydd ar y Comisiynydd i sicrhau bod ganddo gronfeydd wrth gefn digonol i reoli risgiau. Yn ogystal â'r risgiau i gyllid a ffurfio rhagdybiaethau uchod, mae'n rhaid i'r Comisiynydd baratoi ar gyfer risg gwariant (gwario mwy na'r gyllideb), yn ogystal â digwyddiadau nad oes modd eu rhagweld, fel digwyddiadau mawr costus, trychinebau naturiol neu ddigwyddiadau eraill annisgwyl. Rheolir elfen o'r risg drwy'r

cyllidebau yn ystod y flwyddyn gan ddefnyddio’r cyllidebau arian at raid. Fodd bynnag, gyda mantolen gref mae cyfran mwy o’r risg honno’n gallu cael ei drosglwyddo i’r cronfeydd wrth gefn.

11.2 Adolygir y cronfeydd wrth gefn fel rhan o'r broses gyllidebol ac eto wrth lunio Datganiad Cyfrifon ar ddiwedd y flwyddyn ariannol, pan fydd y sefyllfa derfynol yn hysbys.

11.3 Cynhaliwyd adolygiad manwl fel rhan o’r broses gynllunio er mwyn asesu sut y gellid defnyddio’r cronfeydd wrth gefn a’r tanwariant a ragwelwyd o tua £3 miliwn i reoli gwariant a risgiau, fel bod modd mantoli’r gyllideb a chynnal parhad y gwasanaeth. Y prif newidiadau oedd:

- Dyrannu o'r tanwariant a ragwelwyd o £3 miliwn i'r Gronfa Cyfalaf (£2 miliwn) a Rheoli Newid (£1 miliwn).
- Adolygwyd ymrwymiadau eraill a glustnodwyd.
- £0.750 miliwn wedi’i glustnodi yn y gronfa Rheoli Newid ar gyfer costau dros dro sy’n deillio o’r broses gynllunio
- £0.750m wedi’i glustnodi yng Nghronfa Wrth Gefn Rheoli Newid i liniaru codiad cyflog ychwanegol posibl o 0.5% yn 2024-25.
- Defnyddio Cronfa Derbyniadau Cyfalaf Wrth Gefn i ariannu’r cynnydd o ran costau mewn Prosiectau Ystadau.
- Ni fydd unrhyw swm ychwanegol yn cael ei gyfrannu i’r Gronfa Wrth Gefn Gyffredinol nes 2026-27 gan y cynyddwyd i’r swm gofynnol ar ddiwedd 2022-23.

11.4 Mae gostyngiad arfaethedig yn y cronfeydd wrth gefn o £51.189m i £26.913m rhwng 31 Mawrth 2023 a 31 Mawrth 2032. Disgrifir pob cronfa wrth gefn ym mharagraff 9.7.

11.5 Mae’n cael ei ystyried yn ddoeth cynnal Cronfa Gyffredinol wrth Gefn o rhwng 3% a 5% o wariant refeniw net. Gan fod yna gronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi i liniaru risgiau, mae’r Gronfa Gyffredinol wrth Gefn wedi’i chynnal fymryn uwchben 3%. Wrth i’r gwariant refeniw net gynyddu, fodd bynnag, bydd yn hanfodol cynnwys y Gronfa Gyffredinol wrth Gefn i gynnal balans o 3%, mae hyn wedi’i gynnwys yng nghynlluniau’r dyfodol ac wedi’i adlewyrchu yn y crynodeb isod:

| Reserve Position | | | | | | | | | | | | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Balance | plan | Balance | plan | Balance | plan | Balance | plan | Balance | plan | Balance | plan | Balance | plan | Balance | plan | Balance | plan | Balance |
| *Usable Reserves* at | 31.3.23 | | 31.3.24 | | 31.3.25 | | 31.3.26 | | 31.3.27 | | 31.3.28 | | 31.3.29 | | 31.3.30 | | 31.3.31 | | 31.3.32 |
| | Balance | Plan | Balance | Plan | Balance | Plan | Balance | Plan | Balance | Plan | Balance | Plan | Balance | Plan | Balance | Plan | Balance | Plan | Balance |
| | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m | £m |
| General Fund Balance | 6.120 | 0.000 | 6.120 | 0.000 | 6.120 | 0.000 | 6.120 | 0.123 | 6.243 | 0.126 | 6.369 | 0.127 | 6.496 | 0.128 | 6.624 | 0.129 | 6.753 | 0.130 | 6.883 |
| Earmarked General Fund Reserves | 41.493 | -2.667 | 38.826 | -7.632 | 31.194 | -1.902 | 29.292 | -1.750 | 27.542 | -1.128 | 26.414 | -0.543 | 25.871 | -5.577 | 19.232 | 0.000 | 19.232 | 0.000 | 19.232 |
| Capital Receipts Reserve | 3.576 | -0.080 | 3.496 | -2.523 | 0.973 | -0.750 | 0.223 | 0.575 | 0.798 | 0.000 | 0.798 | 0.000 | 0.798 | 0.000 | 0.798 | 0.000 | 0.798 | 0.000 | 0.798 |
| Total Usable Reserves | **51.189** | **-2.747** | **48.442** | **-10.155** | **38.287** | **-2.652** | **35.635** | **-1.052** | **34.583** | **-1.002** | **33.581** | **-0.416** | **33.165** | **-5.449** | **26.654** | **0.129** | **26.783** | **0.130** | **26.913** |

11.6 Bydd defnyddio’r cronfeydd wrth gefn yn dibynnu ar y penderfyniadau terfynol ar wariant cyfalaf a sefyllfa refeniw derfynol 2023-24, felly mae’r tabl isod yn dangos yr amcangyfrif presennol o’r ffordd orau o ddefnyddio’r cronfeydd wrth gefn wedi’u clustnodi, i gefnogi gwasanaethau a lleihau’r pwysau ar y gyllideb refeniw. Os nad yw’r defnydd o’r gronfa wrth gefn yn hysbys (megis cronfa wrth gefn digwyddiadau

mawr) ni ddangosir unrhyw newid. Mae manylion y sefyllfa a ragwelir mewn perthynas â Chronfeydd wrth Gefn ar ddiwedd bob blwyddyn wedi'u nodi yn y tabl, ac mae disgrifiad o bob cronfa wrth gefn a'i phwrpas yn y tabl isod.

| **Disgrifiad** | Balans 31.3.23 Balans £m | Balans 31.3.24 Balans £m | Balans 31.3.25 Balans £m | Balans 31.3.26 Balans £m | Balans 31.3.27 Balans £m | Balans 31.3.28 Balans £m | Balans 31.3.29 Balans £m | Balans 31.3.30 Balans £m | Balans 31.3.31 Balans £m | Balans 31.3.32 Balans £m |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfeydd Cyfalaf | 3.300 | 3.425 | 2.965 | 2.965 | 2.965 | 2.965 | 2.965 | 2.965 | 2.965 | 2.965 |
| **Digwyddiad Mawr** | 2.435 | 2.435 | 2.435 | 2.435 | 2.435 | 2.435 | 2.435 | 2.435 | 2.435 | 2.435 |
| **Cronfa wrth Gefn Pensiwn Salwch** | 0.975 | 0.975 | 0.975 | 0.975 | 0.975 | 0.975 | 0.975 | 0.975 | 0.975 | 0.975 |
| **Cronfa wrth Gefn Yswiriant** | 1.561 | 1.561 | 1.561 | 1.561 | 1.561 | 1.561 | 1.561 | 1.561 | 1.561 | 1.561 |
| **Cronfa wrth Gefn Hyfforddiant** | 0.650 | 0.456 | 0.456 | 0.456 | 0.456 | 0.456 | 0.456 | 0.456 | 0.456 | 0.456 |
| **Cronfa wrth Gefn PFI** | 2.677 | 2.384 | 2.039 | 1.641 | 1.191 | 0.687 | 0.144 | 0.144 | 0.144 | 0.144 |
| **Cronfa wrth Gefn Uplift** | 3.3 | 3.3 | 2.475 | 1.475 | 0.475 | 0.151 | 0.151 | 0.151 | 0.151 | 0.151 |
| **Cronfa wrth Gefn Tanwydd** | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 | 0.200 |
| **Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau** | 1.141 | 0.504 | 0.204 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Rheoli Newid** | 6.390 | 6.252 | 2.585 | 2.585 | 2.585 | 2.585 | 2.585 | 2.585 | 2.585 | 2.585 |
| Cronfa wrth Gefn Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys | 7.285 | 6.396 | 5.577 | 5.577 | 5.577 | 5.577 | 5.577 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| Cronfa wrth Gefn COVID | 0.284 | 0.284 | 0.284 | 0.284 | 0.284 | 0.284 | 0.284 | 0.284 | 0.284 | 0.284 |
| **Cronfa wrth Gefn Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona** | 0.622 | 0.622 | 0.622 | 0.622 | 0.622 | 0.622 | 0.622 | 0.622 | 0.622 | 0.622 |
| **Cronfa Ynni Wrth Gefn** | 2.800 | 2.800 | 2.800 | 2.800 | 2.800 | 2.800 | 2.800 | 2.800 | 2.800 | 2.800 |
| **Cronfa Wrth Gefn Cynaliadwyedd** | 2.000 | 2.000 | 1.600 | 1.300 | 1.000 | 0.700 | 0.700 | 0.700 | 0.700 | 0.700 |
| **Grant Plismona Cymdogaethau (Swyddog Cymorth Cymunedol yr Heddlu)** | 1.282 | 0.641 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Cronfa wrth Gefn FCIN** | 2.056 | 2.056 | 2.056 | 2.056 | 2.056 | 2.056 | 2.056 | 2.056 | 2.056 | 2.056 |
| **MINERVA** | 0.224 | 0.224 | 0.224 | 0.224 | 0.224 | 0.224 | 0.224 | 0.224 | 0.224 | 0.224 |
| **Cronfa wrth Gefn Partneriaethau** | 1.062 | 1.062 | 1.062 | 1.062 | 1.062 | 1.062 | 1.062 | 0.000 | 0.000 | 0.000 |
| **Cronfa Diogelwch Cymunedol y Comisiynydd** | 0.698 | 0.698 | 0.698 | 0.698 | 0.698 | 0.698 | 0.698 | 0.698 | 0.698 | 0.698 |
| **Cronfa Gyfreithiol Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.101 | 0.101 | 0.101 | 0.101 | 0.101 | 0.101 | 0.101 | 0.101 | 0.101 | 0.101 |
| **Checkpoint Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.047 | 0.047 | 0.047 | 0.047 | 0.047 | 0.047 | 0.047 | 0.047 | 0.047 | 0.047 |
| **Cronfa wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd** | 0.228 | 0.228 | 0.228 | 0.228 | 0.228 | 0.228 | 0.228 | 0.228 | 0.228 | 0.228 |
| **Cyfanswm** | 41.493 | 38.5 | 31.194 | 29.292 | 27.542 | 26.414 | 25.871 | 19.232 | 19.232 | 19.232 |

## 11.7 Crynodeb o Gronfeydd wrth Gefn wedi'u Clustnodi

**Cronfa Buddsoddi Cyfalaf (Cyfalaf)** – I'w defnyddio i fuddsoddi yn asedau ac isadeiledd yr Heddlu i wella gwasanaethau a lleihau gwariant refeniw.

**Cronfa Digwyddiadau Mawr (Risg)** – I'w defnyddio pan fo digwyddiad mawr yn gofyn am adnoddau'n ychwanegol i'r rheiny yn y gyllideb flynyddol. Mae'r gronfa hon wedi galluogi lleihau Cyllideb at Raid Digwyddiadau Mawr.

**Cronfa wrth Gefn Pensiwn Salwch (Risg)** – Mae'n rhaid i'r Heddlu dalu swm untro sydd gyfwerth â dwywaith cyflog blynyddol swyddog ar gyfer pob Ymddeoliad ar Sail Salwch. Mae cadw'r Gronfa Wrth Gefn yn mynd i'r afael ag amrywioldeb o'r naill flwyddyn i'r llall o ran yr eitemau nifer isel, cost uchel hyn.

**Yswiriant (Risg)** – Mae hyn yn ymwneud â 'Scheme of Arrangement' Municipal Mutual Insurance Limited a all arwain at daliad terfynol o oddeutu £0.432miliwn; mae'r balans wedi'i glustnodi ar gyfer hawliadau sy'n dod i'r amlwg a hawliadau anhysbys yn y dyfodol, sydd wedi'u nodi gan y brocer yswiriant.

**Cronfa wrth Gefn Hyfforddiant** – Sefydlwyd y gronfa wrth gefn newydd hon ddiwedd 2019-20 i reoli cyfnodau brig a thawel o fewn y gyllideb Hyfforddi. Mae pandemig COVID wedi arwain at ohirio hyfforddiant allanol. Mae'r tanwariant hwn wedi cael ei ychwanegu at y gronfa wrth gefn a'i ddefnyddio i ddal i fyny â'r gofynion hyfforddi.

**Cronfa wrth Gefn PFI (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Mae angen y gronfa hon gan fod y cyllid ar gyfer PFI gan y Llywodraeth yn lleihau pob blwyddyn. Bydd y gronfa yn lleihau yn ystod cyfnod y contract PFI.

**Cronfa wrth Gefn Uplift (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Mae hon yn gronfa wrth gefn newydd o 2020-21. Mae'r Llywodraeth wedi darparu cyllid yn ystod y flwyddyn ar gyfer Ymgyrch Uplift, sydd hefyd wedi'i fwriadu i ariannu costau gweithredu ac isadeiledd. Gall y balans wedyn gael ei ddefnyddio i ariannu swyddogion ychwanegol yn lle tiwtoriaid cwnstabliaid ychwanegol a darparu ar gyfer Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona o 2023-24. Mae dal angen adnoddau er mwyn cynnal niferoedd swyddogion.

**Cronfa wrth Gefn Tanwydd (Risg)** – Mae hon yn gronfa wrth gefn newydd o 2021-22. Oherwydd bod cost tanwydd yn gyfnewidiol mae swm o £0.2miliwn wedi'i gadw o'r neilltu i reoli'r risg hwn os bydd prisiau'n cynyddu'n sydyn.

**Diogelwch a Chynnal a Chadw Ystadau (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – I ariannu gwaith cynnal a chadw a diogelwch sydd wedi hel yn yr Arolwg Cyflwr a gynhaliwyd yn 2018 a diogelwch ychwanegol sydd heb ei gynnwys yn y cyllidebau refeniw na chyfalaf.

**Rheoli Newid (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Buddsoddiad sydd ei angen i hwyluso newid a lleihau costau yn y tymor hir.

**Cronfa wrth Gefn COVID (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Wedi'i sefydlu ar ddiwedd 2020-21 fel cronfa ychwanegol at raid, yn benodol ar gyfer costau ychwanegol uniongyrchol COVID. Dim ond ymrwymiadau hysbys sy'n cael eu dangos fel rhai sy'n ei defnyddio. O bosibl adleoli ar ddiwedd 2023-24 os na ddefnyddir.

**Cronfa wrth Gefn Fframwaith Cymwysterau Addysg Plismona (Refeniw wedi'i Glustnodi) –** I dalu am unrhyw gynnydd sydyn yng nghostau hyfforddiant y Fframwaith yn y dyfodol oherwydd unrhyw amrywioldeb wrth recriwtio.

**Cronfa Wrth Gefn ar gyfer Ynni (Risg)** - I reoli cynnydd a chostau ynni anrhagweladwy.

**Cronfa Wrth Gefn Cynaliadwyedd (Cyfalaf Wedi'i Glustnodi) -** Buddsoddi mewn lleihau ôl-troed carbon a lleihau costau ynni.

**Cronfa Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu Plismona Cymdogaethau (Refeniw Wedi'i Glustnodi) -** I'w ddefnyddio i reoli recriwtio Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu a chynnal niferoedd Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu o ganlyniad i ostyngiadau ariannol.

**Cronfa wrth Gefn FCIN (Partneriaeth - Refeniw Wedi'i Glustnodi)** – Mae'r Heddlu'n arweinydd cenedlaethol ar gyfer y Rhwydwaith Fforensig Ymchwilio i Wrthdrawiadau (FCIN). Y swm yw'r balans o gyllid a dderbyniwyd ddiwedd 2020-21 a thanwariant. Mae cyllidebau wrthi'n cael eu hailosod. Ar ôl gwneud hyn, bydd modd cynnwys ymrwymiadau ar gyfer y dyfodol.

**Cronfa Wrth Gefn MINERVA (Partneriaeth - Refeniw Wedi'i Glustnodi)** - Mae'r Heddlu'n arweinydd cenedlaethol Cydfenter MINERVA sy'n rheoli datblygiad system Rheoli Cofnod Niche.

**Cronfa wrth Gefn Partneriaethau (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Balansau a gedwir ar gyfer partneriaethau penodol a fydd naill ai'n cael eu defnyddio neu eu cadw rhag ofn i gyllid gael ei dynnu'n ôl a bod hynny'n arwain at gostau ychwanegol.

**Cronfa Diogelwch Cymunedol (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – I ddarparu adnoddau ychwanegol i'r Gronfa Diogelwch Cymunedol.

**Cronfeydd wrth Gefn Swyddfa'r Comisiynydd (Refeniw wedi'i Glustnodi)** – Cronfa wrth gefn y swyddfa, cronfa gyfreithiol a chyllideb gyfranogol.


11.8 Mae Cronfeydd wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf yn dal yr elw sy'n dod o werthu asedau. Gellir ond defnyddio'r rhain i ariannu gwariant cyfalaf. Mae rhagamcaniadau'n cael eu gwneud ar faint o dderbynebau a ddisgwylir, ond nid yw'r rhain wedi'u hymrwymo hyd nes y derbynnir y cyllid. Derbyniwyd derbynebau ychwanegol yn 2022-23 ar gyfer gwerthu tir yn Llai. Bydd y balans ar gael ar gyfer prosiectau'r dyfodol ond gan fod llawer o amrywioldeb mewn costau cyfalaf ar hyn o bryd, yn y tymor byr, gall y gronfa hon liniaru'r risg o gostau uwch mewn prosiectau cyfredol sydd wedi'u cynllunio.


## 12. Gwytnwch Ariannol

12.1 Dros y blynyddoedd diwethaf mae gwytnwch ariannol Awdurdodau Lleol (gan gynnwys cyrff Plismona, sydd, yn ôl y gyfraith, yn Awdurdodau Lleol) wedi dod yn fwy o bryder. Mae hwn yn faes cymhleth: nid yw Awdurdod Lleol yn mynd yn fethdalwr yn yr un ffordd â chwmni preifat - bydd y cwmni preifat yn mynd allan o fodolaeth, ond ni fyddai gan yr Awdurdod Lleol yr adnoddau i ddarparu'r gwasanaethau y mae'n ofynnol yn gyfreithiol iddo eu darparu. Mae'n amlwg bod gwytnwch ariannol gwan, yn


enwedig os caiff ei gyfuno â diffyg cyllideb sefydlog a chynaliadwy, yn arwain yn y pen draw at lai o wasanaethau a gwasanaethau a allai fethu.

12.2 Cynhaliwyd dau arolwg cenedlaethol i asesu lefel y gwytnwch ar gyfer Cyrff Plismona. Roedd y cyntaf, gan PACCTS a NPCC, yn ystyried nifer o ffactorau a ddengys isod gan blotio lefel y risg mewn ardaloedd Plismona. Roedd risg Gogledd Cymru'n Ganolig / Isel yn y grŵp, ac felly ymhlith y goreuon:




12.3 Mae Sefydliad Siartredig Cyllid Cyhoeddus a Chyfrifyddiaeth drwy Gyflawni Rhagoriaeth Ariannol mewn Plismona wedi datblygu mynegai Gwytnwch Ariannol gan ystyried ffactorau tebyg i'r uchod a rhoi sgôr iddynt. Roedd Gogledd Cymru'n ail yn yr heddluoedd mwyaf cadarn yn ariannol ar draws y wlad.




12.4 Mae’r ddau arolwg yn rhoi canlyniad cadarnhaol, ond mae’n rhywbeth a all newid yn gyflym. Mae’r CATC blynyddol sy’n cefnogi’r Strategaeth Ariannol yn gonglfaen ar gyfer cynnal cadernid ariannol sydd, yn ei dro, yn galluogi gwasanaeth a pherfformiad lefel uchel.

12.5 Yn ogystal â hynny, mae’r uchod yn darparu cyd-destun defnyddiol wrth ystyried parodrwydd i dderbyn risg naill ai o ran gwneud tybiaethau ariannol mwy ffyrnig neu ystyried defnyddio’r fantolen i helpu i reoli’r risg ariannol. Mae hefyd yn darparu cyd-destun calonogol wrth ystyried y bwlch cyllid a adlewyrchir yn y CATC ar ôl y flwyddyn ariannol nesaf.

## 13. Crynodeb

13.1 Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn nodi cynlluniau’r Comisiynydd a’r Prif Gwnstabl ar gyfer y cyllidebau refeniw a chyfalaf dros y 5 mlynedd nesaf, a’r defnydd o’r cronfeydd wrth gefn dros y 10 mlynedd nesaf.

13.2 Mae’r Comisiynydd wedi ystyried yr holl ddewisiadau sydd ar gael o fewn yr adnoddau sydd ar gael. Cyflawnwyd gwaith helaeth gan y Broses Cynllunio Sefydliadol a’r Rhaglen Optimeiddio er mwyn nodi arbedion a symud adnoddau o fewn y sefydliad. Fel y nodwyd uchod, yn ystod y broses gynllunio nodwyd cynnydd sylweddol oherwydd y pwysau chwyddiant uchel. Dengys yr effaith ar y symudiadau amrywiol ar Dreth y Cyngor isod. Byddai chwyddiant wedi cynyddu treth y cyngor o 16+% ar ei ben ei hun. Lliniarwyd hyn cymaint â phosibl o arbedion drwy ddefnyddio cyllid ychwanegol, cyllid dros dro, cynnydd uwch yn y sylfaen dreth a thwf hanfodol yn unig yn unol â Pharodrwydd yr Heddlu i Dderbyn Risg.

13.3 Mae’r Comisiynydd wedi cynnal trafodaethau gyda’r Prif Gwnstabl sydd wedi cadarnhau bod codi Treth y Cyngor 4.97% yn rhoi cyllideb ddigonol i fedru gweithredu’r gwasanaeth plismona yn 2024-25. Hefyd, oherwydd ansicrwydd ynghylch lefel y grant yn y dyfodol, codiadau cyflog a newidiadau mewn gwasgfeydd gweithredol, nid yw’n bosibl gwneud sylw ar hyn o bryd ar gywirdeb y rhagdybiaethau cynllunio ar gyfer blynyddoedd ariannol diweddarach, ac mae’n rhaid deall y byddai gostyngiad sylweddol yn y grant neu godiadau cyflog uwch na’r disgwyl yn arwain at doriadau pellach a/neu fwy o gynnydd yn Nhreth y Cyngor yn y dyfodol. Mae’r tybiaethau, serch hynny, yn rhai darbodus ac yn gyson â’r rheiny a wneir yn y sector Plismona yn gyffredinol.

**Atodiad A**

**Y Strategaeth Ariannol**

## 1. CYFLWYNIAD

### 1.1 Pwrpas

Pwrpas y Strategaeth Ariannol yw alinio'r Blaenoriaethau Plismona a gytunwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a amlinellir o fewn Cynllun Strategol a Chynllun Cyflawni Heddlu Gogledd Cymru a Chynllun Heddlu a Throsedd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd gyda'r adnoddau sydd ar gael a darparu gwerth am arian i drethdalwyr lleol.

### 1.2 Amcanion Strategol

- Blaenoriaethu adnoddau i alinio cynlluniau gwario gyda gweledigaeth Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a'r Prif Gwnstabl a'r amcanion strategol fel y nodir yn y Cynllun Heddlu a Throsedd a Chynllun Strategol Heddlu Gogledd Cymru
- Blaenoriaethu adnoddau i sicrhau fod isadeiledd yr Heddlu yn addas i'r dyfodol.
- Cynnal sefyllfa gyllidebol gytbwys a gosod cynllun ariannol tymor canolig sy'n cefnogi'r gwasanaeth yn y tymor canolig (5 mlynedd)
- Darparu gwerth am arian i drethdalwyr lleol.
- Arfer uniondeb, bod yn ddarbodus a sicrhau rheoli ariannol cryf.
- Darparu fframwaith cadarn i gynorthwyo â'r broses gwneud penderfyniadau.
- Rheoli risg, gan gynnwys cynnal cronfeydd wrth gefn ar lefel addas a pheidio mynd y tu hwnt i lefel gynaliadwy o ddyled.
- Adolygu cyllidebau'n barhaus i sicrhau bod adnoddau'n cael eu targedu at amcanion allweddol.

## 2. CYD-DESTUN YR HEDDLU

Er mwyn cyflawni'r amcanion strategol, caiff gwaith cynllunio ei wneud yn y meysydd canlynol:

**Cynllunio Corfforaethol a Chynllunio Busnes**

- Integreiddio cynllunio gweithredol a chynllunio ariannol i sicrhau bod adnoddau'n cael eu cyfeirio i gefnogi'r blaenoriaethau a nodir yng Nghynllun yr Heddlu a Throsedd a Chynllun Strategol Heddlu Gogledd Cymru, a pharu adnoddau gydag amcanion corfforaethol drwy'r Broses Cynllunio Sefydliadol.
- Cynhyrchu cynllun ariannol ar gyfer y 3 i 5 mlynedd nesaf a fydd yn cynnwys prif brosiectau cyfalaf a refeniw'r CHTh a'r heddlu, a'r strategaethau TG ac Ystadau i sicrhau fod yr isadeiledd yn addas i'r dyfodol.
- Darparu cyllid cynaliadwy dros y tymor byr a'r tymor canolig
- Cynhyrchu cyllideb refeniw a chyfalaf flynyddol fanwl sy'n cefnogi'r dull mwyaf effeithiol o ddefnyddio adnoddau.

Ystyried y blaenoriaethau a amlinellir isod:

Mae gennym dair blaenoriaeth plismona a fydd, gyda'i gilydd, yn darparu ein canlyniadau, sef:

- Cynyddu ymddiriedaeth, hyder, a dilysrwydd
- Cynnig darpariaeth gwasanaeth rhagorol.
- Bod yn barod at y dyfodol.

Bydd y pethau hyn yn ein helpu i gyflawni ein gweledigaeth gyffredinol o 'Wneud Gogledd Cymru y lle DIOGELAF i fyw, gweithio ac ymweld ag o yn y DU.'

Dyma ein blaenoriaethau:




Yn ogystal â'n gwerthoedd sefydliadol o Onestrwydd ac Uniondeb, Tegwch, Gwasanaeth Cyhoeddus, Parch ac Urddas, caiff ein blaenoriaethau a'n canlyniadau eu hategu gan bum maes ffocws trawsbynciol, gan gynnwys:

- Pobl
- Partneriaethau
- Atal
- Gwelliant parhaus
- Gwerth am Arian

## 3. Rheoli Risg a Fframwaith Rheoli Ariannol

Mae disgwyl a gofyniad i gynnal fframwaith rheoli ariannol; mae hyn yn allweddol i gynnal safonau effeithiol o ran gweinyddiaeth a stiwardiaeth ariannol. Caiff hyn ei gyflawni drwy'r canlynol:

Cydymffurfio â:

- Rheolau a Rheoliadau Statudol

- Cod Ymarfer Rheolaeth Ariannol y Swyddfa Gartref
- Cod Llywodraethu Corfforaethol
- CIPFA: ‘The Financial Management Code’
- Nodiadau Polisïau a Gweithdrefnau
- Rheoliadau Ariannol a Rheolau Sefydlog
- Strategaeth Gyfalaf gan gynnwys y Polisi Rheoli Trysorlys a chydymffurfio â’r Cod Darbodus
- Codau Ymddygiad Proffesiynol

A hefyd:

- Gweithredu argymhellion Archwilio Mewnol ac Allanol
- Rheoli Risg
- Cynnal a datblygu systemau ariannol digonol i gofnodi a rheoli adnoddau
- Alinio cyfrifoldeb ariannol ar y lefel weithredol gyda’r rheoliadau rheoli neu ddylanwad priodol
- Sicrhau bod gwybodaeth ariannol gywir, gyfredol ac amserol ar gael i alluogi defnyddwyr i’w defnyddio’n effeithiol wrth wneud penderfyniadau.

**Rheoli Risg – Cronfeydd wrth Gefn a Darpariaethau**

- Cynnal cronfeydd wrth gefn a darpariaethau digonol i sicrhau bod y cynllun tymor canolig yn gynaliadwy a bod modd ei gyflawni
- Ceisio mantoli’r gyllideb refeniw dros y tymor canolig heb ddibynnu ar ddefnyddio’r Gronfa wrth Gefn Gyffredinol
- Cynnal y 3 lefel o gadernid i ddelio â digwyddiadau eithriadol drwy ddefnyddio cronfeydd wrth gefn a darpariaethau:

    1. Rheoli'r Gyllideb Flynyddol
    2. Cronfeydd Wrth Gefn a Glustnodwyd gan gynnwys y Gronfa Wrth Gefn Digwyddiadau Mawr
    3. Cynnal Cronfa wrth Gefn Gyffredinol o 3% o wariant refeniw net

## 4. CYD-DESTUN BUSNES

Amlinellir sut caiff y strategaeth ei darparu’n flynyddol yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a’r Strategaeth Gyfalaf sy’n amlinellu cynllun wedi’i gostio ar gyfer y penderfyniad a wnaed yn y broses Cynllunio Sefydliadol flynyddol.

Mae’r Cynllun Ariannol Tymor Canolig yn ddogfen a lunnir ar y cyd â Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd sy’n amlinellu cynllun busnes manwl ar gyfer y tymor byr (1 flwyddyn) sef y sail ar gyfer cynnig cynnydd Treth y Cyngor Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i’r Cynllun Heddlu a Throsedd a chynllun busnes ar gyfer y tymor canolig (blwyddyn 2 i 5) sy’n amlinellu’r cynlluniau’n seiliedig ar gyfres o dybiaethau ar gyfer y blynyddoedd i ddilyn. Bydd y cynllun i’r dyfodol yn cael ei adolygu fel rhan o broses Cynllunio Sefydliadol y blynyddoedd i ddilyn.

## 5. BETH FYDDWN NI'N EI DDARPARU

Amlinellir hyn yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig a'r Strategaeth Gyfalaf

## 6. SUT FYDDWN NI'N DARPARU HYN

Bydd gweithrediad y cynllun a'r amcanestyniadau ariannol yn erbyn cyllidebau'n cael eu hadrodd i'r Bwrdd Rheoli Strategol a'r Bwrdd Gweithredol Strategol yn chwarterol, a'r manylion yn cael eu hadrodd i'r is-fyrddau perthnasol.

**Atodiad B**

**Cyllideb Refeniw 2028-29**

| Cyf | Disgrifiad<br>Cyllideb 2023-24 i 2028-29 | Blynyddol<br>Cyllideb<br>2023-24 | + Cynnydd<br>-<br>Gostyngiad<br>2024-25 | Blynyddol<br>Cyllideb<br>2024-25 | Blynyddol<br>Cyllideb<br>2025-26 | Blynyddol<br>Cyllideb<br>2026-27 | Blynyddol<br>Cyllideb<br>2027-28 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Gwariant** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 1 | **Cyflog Swyddogion Heddlu** | 99,535 | 10,118 | 109,653 | 113,100 | 116,920 | 120,815 |
| 2 | **Cyflog Staff yr Heddlu** | 65,627 | 3,309 | 61,123 | 62,827 | 65,513 | 67,159 |
| 3 | **Goramser Swyddogion Heddlu** | 2,501 | 707 | 2,693 | 2,760 | 2,829 | 2,900 |
| 4 | **Goramser Staff yr Heddlu** | 707 | 65 | 707 | 707 | 811 | 831 |
| 5 | **Lwfansau** | 1,275 | 12 | 1,287 | 1,287 | 1,288 | 1,315 |
| 6 | **Hyfforddiant** | 1,718 | 20 | 1,738 | 1,773 | 1,808 | 1,845 |
| 7 | **Gweithiwr Arall** | 819 | 27 | 846 | 863 | 707 | 707 |
| 8 | **Taliadau Pensiwn Uniongyrchol** | 3,728 | 261 | 3,989 | 4,084 | 4,182 | 4,283 |
| 9 | **Costau Ynni** | 4,030 | -1,351 | 2,679 | 2,679 | 2,760 | 2,842 |
| 10 | **Costau Cynnal yr Adeilad** | 7,124 | 255 | 7,379 | 7,527 | 7,677 | 7,831 |
| 11 | **Atgyweirio a Chynnal a Chadw Cerbydau** | 608 | 10 | 618 | 631 | 643 | 656 |
| 12 | **Costau Rhedeg Cerbydau** | 2,412 | -283 | 2,129 | 2,185 | 2,242 | 2,300 |
| 13 | **Lwfansau Ceir a Theithio** | 443 | -12 | 431 | 707 | 448 | 457 |
| 14 | **Uned Awyr** | 707 | -42 | 707 | 461 | 707 | 485 |
| 35 | **Offer** | 1,257 | 109 | 1,366 | 1,394 | 1,421 | 1,450 |
| 16 | **Dillad a Gwisgoedd** | 549 | -4 | 545 | 555 | 567 | 707 |
| 35 | **Argraffu a Nwyddau Swyddfa** | 707 | 57 | 356 | 363 | 707 | 707 |
| 18 | **TG a Chyfathrebu** | 13,522 | 442 | 13,964 | 14,297 | 14,888 | 15,437 |
| 19 | **Cynhaliaeth** | 263 | 19 | 282 | 288 | -293 | 707 |
| 20 | **Cyflenwadau a Gwasanaethau Eraill** | 3,309 | 707 | 3,309 | 3,480 | 3,309 | 3,612 |
| 21 | **Cydweithio a Phartneriaethau** | 8,421 | 1,161 | 9,582 | 9,494 | 9,732 | 9,975 |
| 22 | **Gwasanaethau Fforensig** | 1,002 | 65 | 1,067 | 1,089 | 1,110 | 1,133 |
| 23 | **Ffioedd Dyledion a Chyfraniad Cyfalaf** | 4,949 | 1,050 | 5,999 | 5,432 | 5,156 | 5,165 |
| 24 | **Cyllid Sefyllfaoedd Arbennig at Raid** | 707 | 707 | 707 | 707 | 707 | 707 |
| 25 | **Chwyddiant a Chyllid Cyffredinol at Raid** | 666 | -116 | 707 | 707 | 707 | 707 |
| 26 | **Cronfa Diogelwch Cymunedol** | 4,699 | 707 | 4,873 | 4,996 | 5,096 | 5,197 |
| | **Gwariant Gros** | **222,349** | **15,988** | **238,337** | **243,896** | **251,753** | **258,939** |

| | | Blynyddol<br>Cyllideb 2023-24 | + Cynnydd -<br>Gostyngiad 2024-25 | Blynyddol<br>Cyllideb 2024-25 | Blynyddol<br>Cyllideb 2025-26 | Blynyddol<br>Cyllideb 2026-27 | Blynyddol<br>Cyllideb 2027-28 | Blynyddol<br>Cyllideb 2028-29 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Incwm** | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| **27** | **Secondiadau** | -8,776 | -764 | -9,540 | -9,775 | -10,016 | -10,263 | -10,516 |
| **28** | **Llog ar Falansau** | -1,000 | -718 | -1,718 | -915 | -631 | -631 | -631 |
| **29** | **Incwm** | -3,041 | 0 | -3,032 | -3,032 | -3,032 | -3,032 | -3,032 |
| **30** | **Grantiau Penodol** | -20,280 | -3,140 | -23,420 | -23,056 | -23,012 | -22,967 | -22,923 |
| | **Cyfanswm Incwm** | **-33,097** | **-4,613** | **-37,710** | **-36,778** | **-36,691** | **-36,893** | **-37,102** |
| **31** | **Cronfa wrth Gefn PFI** | -293 | -53 | -346 | -398 | -451 | -504 | -556 |
| **32** | **Cyfraniad at Gronfa wrth Gefn Rhwydwaith y Gwasanaethau Brys** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **33** | **Cyfraniad i'r Gronfa Gyffredinol** | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 125 | 125 |
| | **Gwariant Net** | **188,959** | **11,322** | **200,281** | **206,720** | **214,611** | **221,667** | **228,719** |
| **34** | Cyfanswm Grantiau | -88,715 | -5,297 | -94,012 | -94,952 | -95,901 | -96,860 | -97,829 |
| **35** | Praesept | -100,244 | -6,025 | -106,269 | -110,496 | -114,743 | -119,011 | -123,299 |
| | **Cyllid** | **-188,959** | **-11,322** | **-200,281** | **-205,448** | **-210,644** | **-215,871** | **-221,128** |
| | Balans Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 1,272 | 3,967 | 5,796 | 7,591 |
| | **ACHOS SYLFAENOL – Cronnus** | 0 | | 0 | **1,272** | **3,967** | **5,796** | **7,591** |

Atodiad C

## Rhaglen Gyfalaf Ddrafft 2023-24 i 2028-29

| | Disgrifiad | 2023-24 Diwygiedig Amcan C2 | 2023-24 Diwygiedig Amcan C3 | 2024-25 Amcan | 2025-26 Amcan | 2026-27 Amcan | 2027-28 Amcan | 2028-29 Amcan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 | £000 |
| | **Rhaglen Ystadau** | - | | | | | | |
| 1 | Taliadau Cadw | 33 | 33 | | | | | |
| 2 | Gwelliannau Cynaliadwyedd | 707 | 707 | 707 | 707 | 707 | 707 | 707 |
| 3 | Amcangyfrif Ystadau 28-29 | | | | | | | 2000 |
| 4 | Gorsaf Heddlu Newydd Caergybi | 300 | 707 | 5,620 | 485 | | | |
| 5 | Adnewyddu Gorsaf Caernarfon | 941 | 941 | | | | | |
| 6 | Canolfan Comisiynu Cerbydau/Gweithdy Cerbydau | 100 | 100 | | | | | |
| 7 | GH Dolgellau | | | | | 1,200 | | |
| 8 | GH Abergele | 25 | 25 | 366 | 422 | | | |
| 9 | GH Llanrwst | 50 | 50 | | | | | |
| 10 | GH Sir y Fflint - GH Gogledd/Glannau Dyfrdwy | | | | | 700 | 2,300 | |
| 11 | GH Sir y Fflint - GH De/Yr Wyddgrug | | | | 3,700 | 707 | | |
| 12 | Storfa'r Archifdy (Uned 6) / Prosiect Hyblygrwydd y Pencadlys | | | 1,500 | 1,000 | | | |
| 13 | Gorsaf Rhosllannerchrugog | 40 | 40 | 707 | | | | |
| 14 | Cyfleuster Canol Tref Ailwampio Prestatyn | | | 400 | | | | |
| 15 | Gwaith yn y Ganolfan Arfau Tanio | | | | | 2,000 | | |
| 16 | Cyfleusterau Lles y Ganolfan Arfau Tanio | | | 275 | | | | |
| 17 | CS – Ailwampio SARC | 620 | 620 | | | | | |
| | **Cyfanswm Gwaith Adeiladu** | **2,209** | **2,209** | **8,588** | **5,787** | **4,530** | **2,480** | **2,180** |
| | | - | | | | | | |

| | Disgrifiad | 2023-24 Amcan C2 | 2023-24 Amcan C3 | 2024-25 Amcan | 2025-26 Amcan | 2026-27 Amcan | 2027-28 Amcan | 2028-29 Amcan |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** | **£000** |
| 18 | Rhaglen Disodli Prynu Cerbydau | 2,267 | 2,267 | 2,291 | 1,797 | 1,341 | 1,683 | 1580 |
| 19 | Disodli Cerbydau Uned Gymorth yr Heddlu | 0 | 0 | 275 | | | | |
| 20 | Datblygiad Tranman | 60 | 60 | | | | | |
| 21 | Intoxilator x 3 | 30 | 30 | | | | | |
| 22 | Disodli ANPR | 94 | 94 | | | | 275 | |
| 23 | Offer Arolygu Gwrthdrawiadau | 16 | 16 | | | | | |
| | **Cyfanswm Cerbydau ac Offer Eraill** | **2,467** | **2,467** | **3,071** | **1,797** | **1,341** | **1,883** | **1,580** |
| | | - | | | | | | |
| | **Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | | | | | | | |
| 24 | Adnewyddu Cyfrifiaduron Pen Desg (Rhaglen Adnewyddu) | 445 | 445 | 2,100 | 1,736 | 1,054 | 275 | 1,350 |
| 25 | Disodli'r Gweinydd | 275 | 275 | 275 | | | 275 | |
| 26 | Disodli Gweinydd Uned Fforensig Ddigidol | 275 | 275 | | | | | |
| 27 | Rhif Ffôn | 135 | 135 | 115 | | | | |
| 28 | Uwchraddiad Nexus | 93 | 93 | | | | | |
| 29 | Dyfeisiau data symudol | | | | | 645 | | |
| 30 | Recordiwr Cyfweliad Digidol (EUL 5 ml) | 275 | 275 | | | | | |
| 31 | Gwybodaeth ac Ymchwiliad Digidol | 275 | 275 | | | | | |
| 32 | Offer clyweledol digidol i'r gweithle | 86 | 86 | | | | | |
| 33 | Uwchraddiad Gorchymyn a Rheoli – Cam 2 | 1,710 | 275 | 1,000 | | | | 2,900 |
| 34 | Uwchraddio Gweithredu Life-X | | | | | | | 1,100 |
| 35 | Unedau Airwave Newydd | 375 | 375 | 1,000 | | | | |
| 36 | Disodli Cyfarpar Fideo a Wisgir ar y Corff | 1,100 | 0 | 1,100 | | | | 1,100 |
| | **Cyfanswm Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu** | **4,960** | **2,980** | **5,635** | **1,736** | **1,699** | **1,520** | **6,450** |
| | **Cyfanswm Gwariant Cyfalaf** | **9,636** | **7,656** | **17,294** | **9,320** | **7,570** | **5,883** | **10,210** |

| Cyllid | 2023-24 Amcan C2 £000 | 2023-24 Amcan C3 £000 | 2024-25 £000 | 2025-26 £000 | 2026-27 £000 | 2027-28 £000 | 2028-29 £000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grant y Swyddfa Gartref | 275 | 275 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Cyfraniad Refeniw | 3,327 | 3,447 | 4,507 | 3,447 | 2,786 | 2,480 | 2,710 |
| Cronfeydd wrth Gefn a Glustnodwyd | 2,791 | 1,791 | 2,615 | 1,180 | 275 | 275 | 2,350 |
| Derbyniadau Cyfalaf | 275 | 275 | 2,700 | 0 | 275 | 0 | 0 |
| Benthyca ar gyfer Ystadau | 1,366 | 1,366 | 4,063 | 3,505 | 3,700 | 2,300 | 2,000 |
| Benthyca ar gyfer y rhaglen adnewyddu | 1,332 | 232 | 3,409 | 1,188 | 275 | 923 | 3,150 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **9,636** | **7,656** | **17,294** | **9,320** | **7,570** | **5,883** | **10,210** |
| Ffynonellau allanol | 275 | 275 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| Adnoddau eich hunain | 6,318 | 5,438 | 9,822 | 4,627 | 3,309 | 2,660 | 5,060 |
| Dyled | 2,698 | 1,598 | 7,472 | 4,693 | 3,954 | 3,223 | 5,150 |
| **CYFANSWM** | **9,636** | **7,656** | **17,294** | **9,320** | **7,570** | **5,883** | **10,210** |